

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Cynllun Iaith Gymraeg Craidd

1. Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cynllun yn nodi'r mesurau y mae'r Cynulliad yn bwriadu eu cyflwyno er mwyn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb i'r graddau y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Mae'r cynllun yn fodd o adael i'r cyhoedd yng Nghymru gael gweld ar amrantiad ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol tuag at ddwyieithrwydd wrth gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn dilyn cyhoeddi Papur Gwyn y Llywodraeth, **Llais dros Gymru**, a oedd yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer datganoli yng Nghymru, cymeradwywyd y cynlluniau hyn mewn refferendwm a gynhaliwyd ar 18 Medi 1997.

Pasiodd Senedd y DU Ddeddf Llywodraeth Cymru ym 1998, a oedd yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd yr etholiadau cyntaf fis Mai 1999 pan etholwyd 60 Aelod Cynulliad (AC) i wasanaethau am dymor o 4 blynedd.

Trosglwyddwyd y pwerau a'r cyfrifoldebau datganoledig o Lywodraeth y DU i'r Cynulliad ar 1 Gorffennaf 1999. Ers Gorffennaf 1999, mae Senedd y DU wedi parhau i roi pwerau a chyfrifoldebau i'r Cynulliad yng Nghymru ar gyfer y materion hynny a oedd yn rhan o'r setliad datganoli. Mae'r Cynulliad yn gyfrifol yng Nghymru am lawer o bethau sy'n cael eu penderfynu yn Lloegr gan Ysgrifenyddion a Gweinidogion Gwladol yn Llywodraeth y DU. Mae gan y Cynulliad bwerau a chyfrifoldebau yn y meysydd canlynol:

- Amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgodfeydd a bwyd
- Y Dreftadaeth Adeiledig
- Diwylliant
- Datblygu Economaidd
- Addysg a Hyfforddiant
- Yr Amgylchedd
- Iechyd a Gwasanaethau Iechyd
- Priffyrdd
- Tai
- Diwydiant
- Llywodraeth Leol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Chwaraeon a hamdden
- Twristiaeth
- Cynllunio gwlad a thref
- Trafnidiaeth
- Dwr ac amddiffyn rhag llifogydd
- Yr Iaith Gymraeg

Pwy sy'n cael eu cynnwys o dan y Cynllun

Mae'r Cynllun hwn yn berthnasol i **Gabinet y Cynulliad** ac i holl **staff** y Cynulliad, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio yn Swyddfa'r Llywydd ac yn yr Arolygiaeth Gynllunio (gweler isod, 'y rhai nad ydynt yn rhan o'r Cynllun').

Mae Cabinet y Cynulliad yn cynnwys Prif Weinidog Cymru, a Gweinidogion sydd â phortffolios unigol o gyfrifoldebau. Caiff y Prif Weinidog ei ethol gan Aelodau'r Cynulliad a bydd yntau yn ei dro yn penodi'r Gweinidogion Cynulliad eraill. Gall y Prif Weinidog hefyd benodi Dirprwy Brif Weinidogion ond nid yw'r rhain yn aelodau o'r Cabinet.

Mae staff y Cynulliad sy'n rhan o'r Cynllun hwn yn cynnwys tua 2,750 o bobl, y rhan fwyaf

ohonynt wedi'u lleoli ar dri safle yng Nghaerdydd: adeiladau'r Goron ym Mharc Cathays, adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd, a Ffynnon-Ias, Llanisien. Mae yna swyddfeydd rhanbarthol wedi'u lleoli o gwmpas y wlad sy'n delio ag amaethyddiaeth a physgodfeydd (yn Aberhonddu, Caernarfon, Caerfyrddin, Hwlfordd, Caergybi, Llanbedr Pont Steffan, Llandrindod, y Drenewydd, Aberdaugleddau, Llanelwy ac Abertawe), Ffyrdd (Bae Colwyn), Diwydiant – Masnach Cymru Rhyngwladol (Bae Colwyn, Abertawe), Tai (Bae Colwyn) a grantiau Ewropeaidd (Machynlleth, Aberpennar). Staff y Cynulliad sy'n gyfrifol am safleoedd Cadw ledled Cymru. Yn 2002 byddwn yn sefydlu Arolygiaeth Safonau Gofal, a bydd gan hwnnw hefyd strwythur rhanbarthol.

[map]

Mae staff y Cynulliad yn weision y Goron ac maent yn aelodau o'r gwasanaeth sifil cartref. Cânt eu harwain gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae'r staff sy'n rhan o'r Cynllun hwn yn gweithio mewn oddeutu 50 is-adran, sy'n ffurfio 12 grp.

[siart]

O dan Reol Sefydlog [2.4] y Cynulliad ac yn unol ag Adran [22.(1)(a)] o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae llawer o bwerau a chyfrifoldebau datganoledig y Cynulliad wedi'u dirprwyo i Brif Weinidog Cymru. Mae'r Prif Weinidog yn ei dro yn dirprwyo'r swyddogaethau hyn i Weinidogion Cynulliad, yn unol â'u portffolios. Mae Gweinidogion hefyd wedi dirprwyo peth pwerau gweinyddol a chyfrifoldebau i staff y Cynulliad.

Mae strategaeth y Cynulliad Cenedlaethol, ar adeg llunio'r Cynllun hwn, wedi ei nodi yn y cyhoeddiad "Gwell Cymru", sy'n cael ei ddiweddarau yn flynyddol. Y blaenoriaethau strategol ar adeg llunio'r Cynllun hwn yw gwella cyfleoedd gwaith; darparu addysg o ansawdd uchel; hyrwyddo iechyd; gwella ansawdd bywydau pobl Cymru a sicrhau gwerth gorau. Mae'n ceisio gwireddu'r amcanion hyn drwy weithio mewn partneriaeth; mewn dull cynhwysol a strategol; a thrwy roi llywodraeth well ar waith.

Bob blwyddyn bydd y Gweinidog Cyllid yn cyflwyno cyllideb ddrafft i'w hystyried gan y Cynulliad.

Senedd y DU sydd dal yn gyfrifol am basio deddfwriaeth sylfaenol. Mae deddfwriaeth eilaidd y Cynulliad yn ymhelaethu ar deddfwriaeth sylfaenol (Deddfau Seneddol) ac yn ychwanegu rhagor o fanylion. Caiff ei chyflwyno i'w hystyried gan Aelodau Cynulliad etholedig mewn cyfarfodydd llawn.

Mae'r Cynulliad yn pennu ac yn cyfathrebu polisïau i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn ogystal â monitro a goruchwyllo'r polisïau hynny; ariannu awdurdodau lleol, yr NHS a chyrrff cyhoeddus eraill; dosbarthu grantiau a chasglu gwybodaeth ystadegol. Mae

hefyd yn darparu gwybodaeth a chymorth yn uniongyrchol i'r cyhoedd yng Nghymru.

Dengys y mapiau isod nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a'u dosraniad.

+ map o ganran y siaradwyr Cymraeg + nifer y siaradwyr Cymraeg.

Y rhai nad ydynt yn rhan o'r Cynllun

Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i Aelodau'r Cynulliad (AC) – ac eithrio Aelodau sydd yn Weinidogion, pan fyddant yn gweithredu yn rhinwedd eu swyddi fel Gweinidogion. Nid yw'r Cynllun yn berthnasol i Swyddfa'r Llywydd (sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cynulliad etholedig yn gweithredu'n ddemocrataidd) nac i'r 240 o staff sy'n gweithio yn Swyddfa'r Llywydd.

Felly nid yw'r canlynol yn rhan o'r Cynllun hwn:

- Gweithgareddau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd llawn, a phob gwybodaeth a dogfennaeth gysylltiedig;
- Gweithgareddau pwyllgorau'r Cynulliad (pwyllgorau pwnc, pwyllgorau rhanbarth, pwyllgorau sefydlog ac eraill) a phob gwybodaeth a dogfennaeth gysylltiedig;
- Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd y Cynulliad a'r gwasanaeth ymwelwyr yn Adeilad y Pierhead;
- Y gwaith o reoli Adeilad y Cynulliad ym Mae Caerdydd;
- Trefnu presenoldeb y Cynulliad yn yr Eisteddfod Genedlaethol a rhai digwyddiadau eraill (y sefyllfa adeg llunio'r cynllun hwn);
- Gwaith Aelodau'r Cynulliad, eu staff cynnal a'u swyddfeydd etholaethol;
- Busnes y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad;
-
- Gwaith staff Swyddfa'r Llywydd.

Bydd **Swyddfa'r Llywydd** yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn y meysydd y mae'n gyfrifol amdanynt mewn dogfen atodol.

Mae'r **Arolygiaeth Gynllunio** yn asiantaeth weithredol o fewn y Cynulliad. Mae'r Arolygiaeth yn gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun. Gellir cael copïau oddi wrth yr Arolygiaeth

Gynllunio (yn swyddfeydd y Cynulliad ym Mharc Cathays, Caerdydd, drwy'r post).

Mae **Swyddfa Cymru** (Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru) yn un o Adrannau Llywodraeth Ganolog y DU, ac mae'n bodoli ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid yw'r Cynllun hwn yn berthnasol i Swyddfa Cymru.

2.

3. **Llunio Polisiâu yn y Cyd-destun Dwyieithog**

Mae proses llunio polisiâu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unigryw ac yn torri tir newydd. Ar y cyfan, ni yn y Cynulliad sy'n penderfynu ac yn gweithredu polisiâu. Fodd bynnag, mae pwyllgorau pwnc y Cynulliad hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o gyfrannu at ddatblygiad polisiâu, ac weithiau caiff polisiâu eu penderfynu gan y Cynulliad llawn yn y cyfarfodydd llawn.

Yn naturiol, bydd y polisiâu ar draws yr ystod o gyfrifoldebau a ddatganaolwyd yng Nghymru yn newid ac yn datblygu gyda threigl amser, mewn ymateb i ddigwyddiadau ac amgylchiadau, ac o ganlyniad i etholiadau a newidiadau yng nghydbwysedd gwleidyddol y pleidiau.

O dan y Cynllun hwn, ceir cyfrifoldeb diamwys i ddatblygu a gweithredu polisiâu gan barchu'r egwyddor y dylai gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Golyga hyn y dylai darpariaeth ddwyieithog fod yn rhan annatod o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, ac y dylai polisiâu a mentrau cyhoeddus adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru a bod yn gydnaws â hynny.

Pan fyddwn yn ystyried bod hynny yn briodol, byddwn yn galw ac yn annog sefydliadau sy'n gweithio yng Nghymru i barchu dewis ieithyddol yn yr un modd â ninnau.

Ein gwasanaethau

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y byddwn. Wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, yn parchu ac yn hwyluso'r defnydd o'r iaith a ffefrir gan siaradwyr Cymraeg a Saenseg.

Ein polisi ehangach

Yr ydym hefyd wedi'n hymrwymo i gefnogi'r Gymraeg ac i feithrin dwyieithrwydd ledled Cymru. Yn gynnar yn 2000 mynegodd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ôl 16 oed (a oedd bryd hynny yn ystyried materion ieithyddol) ei weledigaeth ar gyfer creu Cymru ddwyieithog fel nod cenedlaethol cyraeddadwy. Mae'r cynllun hwn yn gyfraniad tuag at wireddu'r amcan hwnnw.

Un o'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn ein Cynllun Strategol cyntaf, Gwell Cymru.com, yw hybu ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a sicrhau ei bod ar gael yn rhwyddach. Erbyn 2003 yr

ydym yn anelu at sefydlogi cyfran y siaradwyr Cymraeg; cynnal y twf yn nifer y bobl ifanc sy'n siarad yr iaith a chynorthwyo oedolion sy'n dysgu'r iaith, gyda'r gobaith o gynyddu cyfran y boblogaeth a fydd yn gallu siarad Cymraeg erbyn 2010.

Rhai o'r dulliau allweddol y byddwn yn eu defnyddio i feithrin dwyieithrwydd, o dro i dro ac fel sy'n briodol, yw:

- cynnig deddfwriaeth er mwyn cynnal a datblygu cwricwlwm ysgol a fydd yn gwarantu y bydd gan bob plentyn gyfle i ddysgu Cymraeg gydol eu cyfnod mewn addysg orfodol;
- pennu'r cylch gorchwyl a'r ariannu ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- cyflwyno deddfwriaeth ar gyfer ymestyn gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 i gynnwys cyrff cyhoeddus eraill a gweithredu'r pwerau gorfodi o dan adran 20 o'r Ddeddf;
- sicrhau bod y Siarter Ewropeaidd dros leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol yn cael ei rhoi ar waith (mewn perthynas â chyfrifoldebau datganoledig);
- dylanwadu ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd y DU-gyfan, a chynigion a gweithgareddau Coron y DU a chyrrff cyhoeddus yng Nghymru ar faterion sy'n effeithio ar y Gymraeg neu ei defnyddwyr.

Polisiâu a Mentrau Newydd

- Byddwn yn asesu canlyniadau ieithyddol unrhyw bolisiâu neu fentrau newydd pan fyddwn yn eu llunio er mwyn gweld a ydynt yn gydnaws ag ymrwymïadau'r Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys cynigion i ad-drefnu neu greu gwasanaethau newydd a fydd yn cael eu darparu gan Gyrrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, awdurdodau lleol neu gyrrff cyhoeddus eraill, yn ogystal â gweithgareddau'r Cynulliad ei hun.
- Pan fyddwn yn rhoi polisiâu neu fentrau newydd ar waith, byddwn yn sicrhau eu bod yn bodloni, ymrwymïadau'r cynllun hwn yn hytrach na'u tanseilio.
- Weithiau bydd polisiâu newydd neu fentrau ymarferol newydd yn cynnig cyfle inni hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Pan fyddwn yn cyflwyno gweithdrefnau neu wasanaethau newydd i ddisodli rhai presennol, byddwn yn sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfle i wella lefel y gwasanaeth ar gyfer siaradwyr Cymraeg lle nad yw'r safon bresennol yn bodloni'r egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

- Byddwn yn sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am lunio polisiau yn ymwybodol o'r cynllun a'u bod wedi asesu effaith unrhyw gynigion ar ei ymrwymadau.
- Ar gyfer pob un o'n mentrau polisi newydd byddwn yn defnyddio brandiau dwyieithog gan gynnwys acronymau, sloganau, logos, fel bod y cyhoedd yr un mor ymwybodol o deitlau Cymraeg a Saesneg y mentrau y byddwn yn eu lansio. Caiff adrannau'r Cynulliad eu hannog i ddefnyddio brandio uniaith Gymraeg ar gyfer eu mentrau, lle bo hynny'n cael ei ffafrio, er enghraifft Tir Mynydd; Tir Gofal; Cymru Ar-lein.
- Ni chaiff y Cynllun Iaith Gymraeg hwn ei newid heb gytundeb o flaen llaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Byddwn yn ymgynghori â'r Bwrdd o flaen llaw ynghylch unrhyw gynlluniau a fydd yn effeithio ar y cynllun, neu a fydd yn effeithio ar gynlluniau sefydliadau eraill.

Camau Gweinyddol

Byddwn yn sicrhau bod y staff sy'n gyfrifol am lunio polisiau yn ymwybodol o'r Cynllun a'u bod wedi asesu effaith unrhyw gynlluniau ar ymrwymadau'r Cynllun. Bydd angen i unrhyw bolisiau a chynigion ymarferol a baratowyd gan swyddogion y Cynulliad i'w hystyried gan y Cabinet neu Bwyllgorau'r Cynulliad, a fydd yn arwain at gyflwyno gwasanaeth i'r cyhoedd, gan y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddo neu gyrff cyhoeddus eraill, ddangos y bydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn dull a fydd yn gyson ag ymrwymadau'r cynllun hwn. Caiff patrwm asesu safonol ei fabwysiadu, a bydd rhestr wirio o'r agweddau arferol sydd â goblygiadau ieithyddol yn cael eu darparu i'r staff.

Paratoi deddfwriaeth

Mae darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn galluogi'r Cynulliad i lunio deddfwriaeth yn ddwyieithog a chaiff deddfwriaeth ei drafftio yn y Gymraeg a'r Saesneg oni bai ei bod oherwydd amgylchiadau dan sylw yn amhriodol neu'n anymarferol resymol i'r drafft fod yn y ddwy iaith. Mater i'r Gweinidog Cynulliad sy'n gyfrifol am y ddeddfwriaeth dan sylw fydd penderfynu pryd i beidio â darparu is-ddeddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd testunau Cymraeg a Saesneg unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad sydd yn y Gymraeg a'r Saesneg pan fônt yn cael eu llunio, yn cael eu trin at bob diben fel eu bod yn gyfartal o ran statws.

Hybu a hwyluso Dwyieithrwydd yng Nghymru

Byddwn yn defnyddio cyfleoedd, fel sy'n briodol, i ddylanwadu ar sefydliadau eraill ledled Cymru a thu hwnt sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yng Nghymru. Ein nod yw annog sefydliadau eraill i fabwysiadu polisiau ac arferion

sydd yn gydnaws â natur ddwyieithog Cymru ac i weithio'n ddwyieithog – tra'n parchu yr amrywiol amgylchiadau y mae sefydliadau yn gweithredu ynddynt, a'r cynlluniau iaith statudol neu wirfoddol y gallant fod wedi eu rhoi ar waith. Wrth geisio bodloni'r amcanion hyn byddwn yn gwneud y canlynol:

Cynnwys Canllawiau a Chylchlythyrau

Yr ydym yn cyhoeddi canllawiau polisi a chanllawiau ymarferol, cylchlythyrau a dogfennau strategol eraill i awdurdodau lleol, yr NHS a chyrrff eraill sy'n arfer swyddogaethau sy'n gyhoeddus o ran natur.

- Pan fyddwn o'r farn bod ein dogfen yn ymwneud â pholisïau neu wasanaethau sydd eisoes yn cael eu cynnwys gan gynlluniau iaith sefydliadau eraill, bydd ein canllawiau yn datgan yn benodol ein bod yn disgwyl i'r sefydliadau gymhwyso eu cynlluniau.
- Pan fyddwn o'r farn nad yw'r sefyllfa uchod yn cael ei gweithredu, bydd ein canllawiau yn datgan yn benodol pa ystyriaethau ieithyddol (os o gwbl) sy'n berthnasol.
- Mae'r uchod yn berthnasol i ganllawiau a chylchlythyrau sy'n cael eu cyhoeddi ar y cyd ag Adrannau'r Llywodraeth.

Cyfle Cyfartal

Yr adran hon yn cael ei drafftio drwy ymgynghori â'r Uned Cyfle Cyfartal

Ymchwil

- Wrth lunio ein rhaglen ymchwil byddwn yn ystyried yr angen i gynnal ymchwil sy'n ymwneud â'r Gymraeg, naill ai'n benodol neu fel rhan o ymchwil gymhwysol mewn meysydd megis iechyd neu addysg neu ansawdd gwasanaethau.

Ariannu

Mae rhan helaeth o gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei gwario ar yr NHS, llywodraeth leol a **chyrrff cyhoeddus** eraill er mwyn ariannu craidd o weithgareddau y mae'n debygol eu bod eisoes yn cael eu cynnwys o dan gynlluniau iaith y sefydliadau hyn.

- Mae Datganiadau Rheoli sy'n cael eu rhyddhau ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn ei gwneud hi'n ofynnol iddynt, i'r graddau y bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol o ymarferol, weithredu'r egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal.

- Pan gaiff Corff Cyhoeddus newydd a Noddir gan y Cynulliad newydd ei greu, bydd hi'n ofynnol i'r corff gynllunio'r dull y bydd yn gweithredu o'r cychwyn cyntaf gan gadw gwasanaeth dwyieithog mewn cof, a llunio cynllun iaith i'w gytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.
- Weithiau byddwn yn talu grantiau penodol i gyrff cyhoeddus am resymau neu ar gyfer mentrau penodol a hynny yn ychwanegol at unrhyw ariannu craidd. Pan bydd yn ymddangos i ni bod gwasanaeth ar gyfer y cyhoedd sy'n cael ei ariannu gan grant penodol eisoes yn cael ei gynnwys o dan gynllun iaith sefydliad arall byddwn yn datgan ein bod yn disgwyl iddynt weithredu'r cynllun hwnnw. Pan nad yw'n ymddangos i ni bod hynny yn digwydd, byddwn yn nodi'n benodol pa amodau ieithyddol (os o gwbl) sy'n berthnasol i'r grant. Gall y rhain ymwneud â'r diben ei hun neu'r modd y mae'r corff yn cynnal ei waith.
- Yn achos projectau grantiau Ewropeaidd, pan gaiff arian cyfatebol ei ddarparu gan gyrff cyhoeddus, byddwn yn disgwyl iddynt sicrhau bod y project yn gydnaws yn ieithyddol â'r gymuned neu'r cleientiaid sy'n cael eu targedu. Mae'n disgwyl i'r pwyllgor monitro (neu bwyllgor partneriaeth) a ffurfiwyd i oruchwylio'r rhaglen fabwysiadu'r un ymagwedd.

Mae'r Cynulliad hefyd yn talu grantiau i lawer o sefydliadau **gwirfoddol** ac **anwirfoddol**.

- Pan ei bod hi'n ymddangos i ni bod un o'r sefydliadau hyn yn arfer swyddogaeth sy'n gyhoeddus o ran natur neu'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd drwy gytundeb neu drefniant â ni neu gorff cyhoeddus arall, bydd angen i'r rhai sy'n gwneud cais am grant allu dangos i ni sut y maent yn bwriadu bodloni anghenion ieithyddol y gymuned neu'r cleientiaid y mae'r gwasanaethau yn cael eu darparu ar eu cyfer.
- Pan fyddwn yn gwerthuso projectau yn ddiweddarach byddwn yn edrych am dystiolaeth a fydd yn dangos bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn unol â'r cais. Bydd pob un o'n cynlluniau grant ar gyfer y sector gwirfoddol yn cynnwys yr arferion newydd hyn yn eu gweithdrefnau.

Arolygu ac Adolygu

Fel rhan o'i gyfrifoldebau ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Cynulliad yn monitro ac yn gwerthuso'r modd y cânt eu gweithredu trwy gyfrwng dulliau megis adolygu gwasanaethau, arolygiadau, archwiliadau, cyngor ac ymchwil. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gynnal neu'n cael ei gomisiynu gan y Cynulliad ei hun, neu mewn partneriaeth ag adrannau, asiantaethau neu Gomisiynau'r Llywodraeth. Mae darparu gwasanaeth Cymraeg yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i'r cyhoedd yng Nghymru. Cam naturiol felly yw sicrhau bod mesur digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth yng Nghymru yn cael ei ymgorffori fel rhan arferol o'r drefn a'r methodolegau ar gyfer gwaith arolygu ac adolygu, ac yn

rhan o fframweithiau adrodd ar berfformiad. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- Bydd Arolygiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol yn archwilio pa mor ddigonol yw darpariaeth ddwyieithog fel rhan o'i waith arolygu a bydd yn cynnwys mesurau a fydd yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg yn ei ddogfennau rheoleiddio.
- Bydd y trefniadau Gwerth Gorau ar gyfer meincnodi perfformiad Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn cynnwys dangosydd a fydd yn dangos sut y mae'r awdurdodau yn cydymffurfio â'u Cynlluniau Iaith Gymraeg.
- Gofynnir i'r Comisiwn Gwella Iechyd adolygu digonolrwydd ac ansawdd y gwasanaethau Cymraeg a ddarperir gan yr Ymddiriedolaethau Iechyd fel rhan o'u gwaith yng Nghymru.
- Caiff amryw o gyfundrefnau ariannu y Cynulliad eu hadolygu bob hyn a hyn. Pan fyddwn yn adolygu grant, byddwn yn ystyried i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r amodau ieithyddol sy'n berthnasol i'r grant (os oes rhai o gwbl).

Bydd Cynlluniau Gweithredu Grp [gweler adran 4 – "Fframwaith ar gyfer gweithredu'r cynllun"] yn dangos sut y mae grwpiau yn bwriadu gweithredu'r rhan hwn o'r Cynllun.

Ansawdd Gwasanaeth

Pan fyddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg, byddwn yn anelu i sicrhau bod ansawdd y gwasanaeth yr un mor uchel â'r Saesneg. Bydd pob un o egwyddorion "Service First" yr un mor berthnasol i'r ddwy iaith a chaiff y broses o'u gweithredu ei monitro'n agos. Byddwn yn ymdrechu i ddefnyddio Cymraeg Clir a Saesneg Clir.

Er enghraifft, pan fydd dogfennau, arwyddion etc yn 'ddwyieithog' (h.y. yn Gymraeg a'r Saesneg gyda'i gilydd) neu ar wahân mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg, byddwn yn sicrhau bod y fersiwn Cymraeg o'r un ansawdd, yr un maint o ran diwyg, ac yr un mor amlwg â'r Saesneg. Yr ydym yn disgwyl i'r rhai sy'n cael eu noddi a'u goruchwylio gennym arddel yr un safonau.

2.

3. **Cyfrifoldeb am y Cynllun**

Awdurdod

Mae'r Cynllun yn cael ei baratoi o dan Adran 21 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan yr adran honno wedi cael eu dirprwyo i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg. Mae'r Gweinidog wedi paratoi'r cynllun gyda sêl bendith aelodau eraill y Cabinet a thrwy ymgynghori â Phwyllgor Diwylliant y

Cynulliad.

Cyfrifoldeb

Pennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg fydd yn gyfrifol am gynghori'r Ysgrifennydd Parhaol ar weithredu'r Cynllun hwn.

Bydd y Penaethiaid Grp yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am weithredu'r Cynllun o ddydd i ddydd o fewn eu meysydd gwaith. Byddant yn adrodd yn ôl yn flynyddol i'w Gweinidogion perthnasol ar yr agweddau o'r Cynllun sy'n berthnasol i'w portffolios hwy.

Bydd y Penaethiaid Grp yn enwebu Swyddogion Dwyieithrwydd ym mhob grp i oruchwylio ac i hwyluso'r gwaith o weithredu'r cynllun o ddydd i ddydd. Bydd y Swyddogion Dwyieithrwydd hefyd yn bwyntiau cyswllt ar gyfer y cyhoedd a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a byddant yn gyfrifol am reoli'r defnydd y mae eu Grp yn ei wneud o'r gwasanaethau cyfieithu (gweler y siart).

Penaethiaid yr Is-adrannau a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eu his-adrannau yn cydymffurfio â'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w his-adrannau eu hunain.

Bydd yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg sy'n rhan o'r Adran Addysg a Hyfforddiant yn cadw golwg strategol ar y modd y caiff y cynllun ei weithredu. Bydd yn penodi Swyddog Iaith Canolog a fydd yn darparu cyngor ar ddehongli'r cynllun, rhoi cyngor ar flaenoriaethau a chyhoeddi canllawiau cyffredinol er mwyn sicrhau bod pawb yn y Cynulliad yn gyfarwydd â gofynion y Cynllun.

Bydd y Swyddog Iaith Canolog yn gweithredu fel cydlynnydd ar gyfer y Gweithgor Cynllun Iaith Gymraeg a fydd yn cynnwys y grp o Swyddogion Dwyieithrwydd. Bydd y Grp yn cyfarfod yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod y broses o weithredu'r cynllun yn cael ei chydlynu; bod arferion yn gyson, a bod targedau yn cael eu bodloni. Bydd y Grp yn penderfynu pa fesurau neu sefyllfaoedd newydd neu bresennol y mae angen darparu canllawiau ar eu cyfer er mwyn cynorthwyo'r staff i'w gweithredu. Caiff y canllawiau hyn eu llunio gan y Swyddog Iaith Canolog a'u dosbarthu gan Benaethiaid yr Is-adrannau a'r staff priodol.

Bydd Swyddog Iaith Canolog y Cynulliad yn ceisio cadw i fyny ag arferion da mewn awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill a bydd yn mynd ati i gymeryd rhan yn Rhwydiaith (grp swyddogion iaith awdurdodau lleol) a phwyllgor CALL (Grp Iaith Asiantaeth y Llywodraeth).

4. **Cynlluniau Gweithredu**

Byd pob un o Grwpiau'r Cynulliad yn llunio cynllun gweithredu a fydd yn amlinellu sut y bydd y grp, wrth ddarparu unrhyw wasanaethau i'r cyhoedd, yn mynd ati i fodloni ymrwymadau'r Cynllun. Caiff cynlluniau gweithredu a luniwyd o dan y cynllun eu cyhoeddi ar y Rhyngwyd.

Bydd y cynlluniau Gweithredu hyn yn nodi'r:

- Trefniadau sydd gan bob grp ar gyfer cydymffurfio ag ymrwymadau'r cynllun yn unol â thargedau'r cynllun
- Trefniadau sydd gan bob grp ar gyfer darparu unrhyw wasanaethau arbenigol y maent yn gyfrifol amdanynt.

Bydd y Gweinidogion Cynulliad sy'n gyfrifol am bob grp yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a byddant yn darparu copi o gynllun gweithredu eu hadran i bwyllgor pwnc perthnasol y Cynulliad er gwybodaeth ac fel bod modd iddynt ei archwilio.

Bydd Cynlluniau Gweithredu ar gyfer bob grp yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Gweinidog priodol ac i Fwrdd yr Iaith Gymraeg o fewn 6 mis i'r dyddiad pan ddaw'r cynllun hwn i rym. Rhaid adolygu pob Cynllun Gweithredu a rhaid i'r Gweinidog ystyried yr adolygiad yn 2004 yn ogystal ag ystyried yr adolygiad ddwywaith y flwyddyn wedi hynny lle bo angen.

5. Defnyddio'r Gymraeg yn Etholiadau'r Cynulliad

Swyddfa Cymru (Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru) sy'n bennaf gyfrifol am gynnal etholiadau'r Cynulliad.

Caiff y rhan fwyaf o'r ffurflenni a ddefnyddir yn Etholiadau'r Cynulliad eu rhagnodi yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999 mewn ffurf ddwyieithog. Bydd unrhyw ffurflenni eraill a gyhoeddir mewn perthynas ag etholiadau gan y Cynulliad yn cael eu cyhoeddi yn unol ag adran [7] o'r cynllun hwn.

6. Penodiadau Cyhoeddus

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi mabwysiadu Cod Ymarfer ar Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus.

Yr egwyddor o ddethol ar sail teilyngdod sy'n llywio pob penodiad cyhoeddus, trwy ddewis unigolion sydd, ar sail gwybodaeth ynglŷn â'u galluedd, eu profiad a'u nodweddion, yn ateb gofynion y cyrff cyhoeddus dan sylw.

Bydd pob hysbyseb ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn cyhoeddiadau yng Nghymru, ac eithrio yn y wasg Gymraeg lle byddant yn ymddangos yn uniaith Gymraeg. Os byddwn yn hysbysebu penodiadau cyhoeddus yng ngwasg y DU gall y rhain ymddangos yn uniaith Saesneg. Bydd pob hysbyseb, boed mewn un iaith neu ddwy iaith, o faint digonol ac yn gwbl eglur.

Ar gyfer amryw o benodiadau cyhoeddus, megis penodiadau ar gyfer Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu S4C, mae'r gallu i gynnal busnes yn y Gymraeg a'r Saesneg yn fantais glir a chaiff hyn ei nodi yn yr hysbyseb.

Bydd ymgeiswyr a fydd yn gofyn am becynnau cais ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn eu derbyn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall ymgeiswyr wneud cais am swyddi naill ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a chaiff ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn Gymraeg ac sy'n llwyddo i gael cyfweiliad, gynnig y cyfle i gael eu cyfweiliad yn yr iaith o'u dewis hwy, lle bo hynny'n ymarferol.

7.

8. **Y defnydd o'r Gymraeg yn y gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu gan staff y Cynulliad**

Papurau sy'n cael eu paratoi ar gyfer Cyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau'r Cynulliad

Mae rhai o'r papurau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad yn y cyfarfodydd llawn ac ym mhwyllgorau'r Cynulliad yn cael eu paratoi gan staff gweinyddol y Cynulliad. Fel arfer caiff y rhain eu cymeradwyo gan Weinidog Cynulliad ac weithiau cânt eu cyflwyno o dan enw Gweinidog.

Caiff papurau ar gyfer y **cyfarfodydd llawn** eu paratoi yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac eithrio pan na fyddai'n ymarferol resymol neu'n amhriodol i wneud hynny o dan yr amgylchiadau (Rheol Sefydlog y Cynulliad [6.7]). Bydd staff gweinyddol yn darparu'r papurau ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn unol â'r terfynau amser a bennwyd. Swyddogaeth Swyddfa'r Llywydd yw sicrhau bod y papurau ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

Caiff papurau ar gyfer **Pwyllgorau'r Cynulliad** eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddant yn cael eu darparu ar gyfer Swyddfa'r Llywydd yn unol â'r terfynau amser a bennwyd. Swyddogaeth Swyddfa'r Llywydd fydd sicrhau bod y papurau ar gael i Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.

Fel arfer dim ond yn Saesneg y caiff Atodiadau Technegol i bapurau pwyllgor eu paratoi. Yn ogystal, os bydd swmp mawr o bapurau ar gyfer cyfarfod penodol, bydd hawl gan Swyddfa'r Llywydd gytuno i gyfyngu ar swmp y papurau dwyieithog fel bod modd rheoli'r pwysau ar y

cyfleusterau cyfieithu, a hefyd i gytuno bod modd i weddill y papurau gael eu paratoi yn uniaith Saesneg.

Gohebiaeth

Yr ydym yn croesawu llythyrau Cymraeg a Saesneg.

- Pan fyddwn yn derbyn llythyr Cymraeg byddwn yn ateb gyda llythyr Cymraeg wedi'i arwyddo.
- Mae'n targedau amser ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg yn union yr un peth â'n targed ar gyfer ateb llythyrau Saesneg. Pan fyddwn yn ysgrifennu llythyr at unigolyn, grp neu sefydliad y gwyddwn eu bod yn gweithio'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn dymuno derbyn llythyrau yn Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg.
- Pan fyddwn yn anfon llythyr neu gylchlythyr safonol at amryw o unigolion neu sefydliadau, bydd y llythyr yn ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'r holl dderbynyddion yn dymuno ei dderbyn yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg. Eithriad i'r rheol hon yw llythyrau gweinyddol arferol sy'n cael eu hanfon yn uniaith Saesneg o'r Cynulliad at Brif Weithredwyr Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, yr ydym weithiau yn cyhoeddi llythyrau y mae angen eu hanfon ar fyr rybudd, a phe bai'r derbynyddion o dan anfantais pe na baent yn derbyn y wybodaeth yn gyflym, byddwn yn gallu ysgrifennu llythyrau o'r fath yn uniaith Saesneg. Bydd unrhyw benderfyniad i wneud hyn yn seiliedig ar anghenion y derbynwyr yn hytrach na therfynau amser gweinyddol yn unig. Bydd angen i'r Is-adrannau gyfiawnhau a chadw cofnodion o achlysuron o'r fath.
- Yn dilyn sgwrs wyneb-yn-wyneb neu sgwrs ffôn Gymraeg byddwn yn ysgrifennu i ddechrau yn Gymraeg oni bai ein bod yn gwybod y byddai'r derbynydd yn dymuno derbyn yr ohebiaeth yn Saesneg.
- Pan gaiff llythyrau eu rhyddhau yn ddwyieithog, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn o'r un ansawdd, diwyg, maint ac amlygrwydd.
- Mae llythyrau at Aelodau'r Cynulliad gan Weinidogion yn cael eu cynnwys o dan yr egwyddorion uchod.

Post Electronig

Pan fyddwn yn derbyn gohebiaeth dros yr e-bost bydd yr un egwyddorion â'r rhai ar gyfer gohebiaeth ysgrifenedig yn berthnasol.

Camau Gweinyddol

Bydd y Cynulliad yn cadw cronfa ddata ganolog o sefydliadau ac unigolion y gwyddir eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth uniaith Gymraeg, uniaith Saesneg, neu'n ddwyieithog. Bydd Swyddogion Dwyieithrwydd yn gyfrifol am ddiweddarau'r gronfa ddata ac am atgoffa staff i'w

defnyddio.

Byddwn yn cynnwys datganiad cryno ar bapur pennawd a chyhoeddiadau swyddogol yn cadarnhau ein bod yn croesawu gohebiaeth yn y ddwy iaith.

Llythyrau penderfynu

Mae'r egwyddorion a nodwyd yn y paragraffau blaenorol yn berthnasol i lythyrau penderfynu ar faterion megis cynllunio gwlad a thref, cynlluniau ffyrdd a rheoli llygredd.

- Dim ond pan fyddant yn cael eu hysgrifennu at unigolyn neu sefydliad lle'r oedd y cyswllt dechreuol yn Gymraeg neu pan fo'r unigolyn neu'r sefydliad hwnnw wedi gwneud cais wedi hynny am lythyr penderfynu Cymraeg neu y gwyddir bod y derbyniwr yn ffafrio derbyn llythyr uniaith Gymraeg y bydd y rhain yn Gymraeg.
- Bydd y llythyrau penderfynu yn ddwyieithog os gwnaed cynrychioliadau yn Gymraeg yn ystod yr ymchwiliad. Os caiff llythyr penderfynu ei ryddhau yn ddwyieithog, bydd y ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen gyda llofnod ar y diwedd.
- Pan fwriedir i lythyr penderfynu gyfleu polisi i gynulleidfa lawer ehangach na'r apelwyr, byddwn yn ystyried a ddylid ei drin fel cyhoeddiad.

Mae rhai o'r llythyrau penderfynu sy'n cael eu rhyddhau yn is-ddeddfwriaeth (gweler Adran 2 uchod).

Galwadau Ffôn

Yr ydym yn croesawu ymholiadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

- Mae gan staff switsfwrdd y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i dderbyn galwadau ffôn yn Gymraeg. Lle bo modd byddant yn trosglwyddo galwadau Cymraeg at siaradwyr Cymraeg penodedig sy'n delio ag ymholiadau yn Gymraeg yn yr Is-adran briodol. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd yn yr is-adran, bydd y galwr yn cael y dewis o gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio yn ôl, parhau â'r alwad yn Saesneg neu ysgrifennu i'r Cynulliad yn Gymraeg. Bydd unrhyw ymholiad sydd wedi'i ysgrifennu yn Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg.
- Os bydd galwr yn ffonio un o'r adrannau'r Cynulliad yn uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg ond na all y sawl sy'n cymryd yr alwad siarad yr iaith, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n gyfrifol am ymdrin ag ymholiadau Gymraeg, gan roi eglurhad dros wneud hynny. Os nad oes neb ar gael ar y pryd, cynigir dewis i'r galwr o gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio yn ôl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu ysgrifennu

at y Cynulliad yn Gymraeg.

- Ar adegau mae'n bosibl na fydd neb o fewn is-adran yn gallu ateb ymholiadau cymhleth neu arbenigol yn gyfan gwbl yn Gymraeg. Mewn achosion o'r fath, bydd rhywun yn gofyn i'r galwr am fanylion yr ymholiad, a chaiff ddewis trafod y mater yn Saesneg, anfon yr ymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg, neu siarad drwy rywun arall os bydd modd trefnu hynny.
- Os bydd y switsfwrdd yn defnyddio neges ateb neu beiriant ateb, e.e. ar ôl oriau swyddfa, bydd y neges yn ddwyieithog. Byddwn hefyd yn annog staff dwyieithog i ddefnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

Llinellau Penodedig

Gwybodaeth Ystadegol

Yr ydym wedi sefydlu gwasanaeth ffôn Cymraeg i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd sy'n chwilio am wybodaeth ar ystadegau'r llywodraeth. Bydd y gwasanaeth hwn yn ateb ymholiadau sydd heb fod yn gymhleth a, lle bo hynny'n briodol, yn awgrymu pwy y gellid cysylltu â hwy naill ai yn y Cynulliad Cenedlaethol neu yn un o adrannau llywodraeth y DU am ragor o wybodaeth. Y rhif i'w ffonio yw 029 2082 5335.

Llinell Hyfforddiant

Sefydlwyd y llinell hon i dderbyn sylwadau ar raglenni Hyfforddiant y Llywodraeth. Caiff galwadau i'r llinell hon eu cyfeirio at beiriant ateb dwyieithog. Bydd siaradwr Cymraeg yn ateb unrhyw negeseuon yn Gymraeg lle bo angen. Y rhif yw 0800 9178233.

Camau Gweinyddol

Bydd gan yr holl is-adrannau y gallu i ddelio ag ymholiadau cyffredinol gan y cyhoedd yn Gymraeg e.e. cais am gyhoeddiad/cyfeiriad neu am wybodaeth gyffredinol o fewn 2 flynedd wedi i'r Cynllun ddod i rym.

O fewn 2 flynedd i'r Cynllun hwn ddod i rym, lle defnyddir enwau cyswllt, bydd aelodau Cymraeg o'r staff yn cael eu henwi fel pwyntiau cyswllt ar gyfer aelodau o'r cyhoedd ar gyfer deunydd cyhoeddusrwydd/cyhoeddiadau.

Byddwn yn annog pob aelod o'r staff i ateb y ffôn gyda chyfarchiad Cymraeg.

Bydd yr holl staff ar safleoedd Cadw yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog.

Bydd pob aelod staff yn yr adrannau yn gwybod y drefn ar gyfer trosglwyddo galwadau o'r tu allan i siaradwyr Cymraeg, ac i bwy y dylid trosglwyddo galwadau Cymraeg o fewn yr adran.

Mae modd i'r switsfwrdd a staff yn yr is-adrannau gyrchu llyfr ffôn electronig sy'n cynnwys rhestr o siaradwyr Cymraeg yn yr is-adrannau. Bydd Swyddogion Iaith yn sicrhau bod y rhestr hon yn cael ei diweddarau.

Cyfarfodydd, Ymchwiliadau a Gwrandawiadau Cyhoeddus

Mae croeso i'r cyhoedd siarad yn Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gwrandawiadau tebyg sy'n cael eu trefnu gan y Cynulliad Cenedlaethol.

- Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob un o'n cyfarfodydd cyhoeddus oni bai ei bod hi yn ymddangos yn annhebygol y bydd unrhyw un yn dymuno siarad Cymraeg neu Saesneg.
- Bydd gwahoddiadau, gwysiadau a hysbysebion yn ddwyieithog a byddant yn nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.
- Yn ein gwahoddiadau, gwysiadau a hysbysebion, byddwn yn gwahodd pobl i'n hysbysu o flaen llaw a ydynt yn dymuno siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg. Os byddwn wedyn yn cael ein hysbysu bod rhai o aelodau'r cyhoedd yn dymuno siarad yn Gymraeg ac eraill yn Saesneg, byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd er mwyn cynorthwyo'r rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Fel arfer caiff dogfennau sy'n cael eu paratoi mewn perthynas ag ymchwiliadau cyhoeddus eu cyhoeddi yn ddwyieithog. Ni fydd adroddiadau technegol, cynlluniau a dogfennau cyfreithiol a luniwyd i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, fel arfer, yn ddwyieithog, oni bai eu bod yn debygol o fod o ddiddordeb ehangach i'r cyhoedd neu eu bod ar gael eisoes yn Gymraeg. Fel arfer bydd dogfennau o'r fath ar gael i'w harchwilio os gwneir cais am hynny.
- Bydd unrhyw benderfyniad mewn perthynas â pha aelodau o'r staff sydd i fynyachu cyfarfod cyhoeddus yn ystyried yr angen i gael staff Cymraeg yn bresennol.

Cynadleddau

- Bydd taflenni, rhaglenni, llythyrau gwahoddiad, ffurflenni cofrestru, llythyrau cydnabod, bathodynau enw ar gyfer cynadleddau a ffurflenni ar gyfer anghenion penodol y

siaradwyr yn ddwyieithog.

- Bydd cyflwyniadau a thafleuni'r siaradwyr yn cael eu cyfieithu yn unol â disgresiwn y siaradwr.
- Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd lle bo hynny'n angenrheidiol.
- Gofynnir i'r cyhoedd nodi ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw'r iaith y maent yn ei ffafrio at ddibenion y gynhadledd. Bydd hynny wedyn yn ystyriaeth pan fyddwn yn mynd ati i drefnu'r gynhadledd.

Cyfarfodydd eraill â'r Cyhoedd

Derbynfeydd

Yr ydym yn darparu gwasanaeth Cymraeg yn nerbynfeydd ein prif adeiladau ym Mharc Cathays, Caernarfon, Caerfyrddin, Llandrindod a Bae Colwyn.

- Yn ein prif dderbynfa ym Mharc Cathays, Caerdydd, mae aelod Cymraeg o staff ar ddyletswydd ar hyn o bryd trwy gydol y rhan fwyaf o'r diwrnod gwaith er mwyn croesawu ymwelwyr.
- Yn ein swyddfeydd yng Nghaernarfon a Chaerfyrddin bydd aelod Cymraeg o staff ar gael yn y ddesg dderbyn gydol yr amser er mwyn croesawu'r cyhoedd.
- Yn ein swyddfeydd yn Llandrindod a Bae Colwyn bydd staff y dderbynfa yn cyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog ac yn rhoi cyfle i ymwelwyr sy'n holi yn Gymraeg, siarad ag aelod Cymraeg o'r staff.
- Bydd staff Cymraeg ein derbynfeydd a staff blaen y swyddfa yn gwisgo bathodynau iaith Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb, byddwn yn cynnig dewis o iaith ac yn sicrhau bod swyddog Cymraeg ei iaith yn delio â'r rhai sy'n ffafrio siarad yn Gymraeg.
- Bydd yr Is-adrannau yn amlinellu'r trefniadau sydd ganddynt ar gyfer cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn eu cynlluniau gweithredu lle bo hynny'n berthnasol.

Cyfarfodydd grp

Mae swyddogion y Cynulliad yn cynnal amryw o gyfarfodydd eraill ag unigolion a sefydliadau. Mae croeso i bobl siarad Cymraeg yn y cyfarfodydd hyn.

- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod o flaen llaw gydag unigolyn neu sefydliad yr ydym yn gwybod eu bod yn ffafrio defnyddio'r Gymraeg, byddwn naill ai'n cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg.

Seminarau a Chyrsiau Hyfforddi

Pan fyddwn yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i seminarau neu gyrsiau hyfforddi, caiff trefniadau eu gwneud i gynnig dewis o iaith. Byddwn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cwrs hyfforddi nodi ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yw'r iaith y maent yn ei ffafrio at ddiben y cwrs. Bydd hynny wedyn yn ystyriaeth pan fyddwn yn trefnu'r cwrs

Cysylltiadau fideo

- Pan fyddwn yn trefnu cysylltiadau fideo ag aelodau o'r cyhoedd, byddwn yn trefnu'r cyswllt mewn modd a fydd yn bodloni'r dewis ieithyddol a ffefrir gyhyd ag y bo hynny'n ymarferol resymol.

Systemau Sain

- Mae'r negeseuon sydd wedi'u recordio yn y lifftiau yn ein swyddfeydd ym Mharc Cathays eisoes yn ddwyieithog. Byddwn yn ail-recordio'r rhain fel bod y Gymraeg yn rhagflaenu'r Saesneg.

Camau Gweinyddol

Bydd staff gweinyddol o fewn yr is-adrannau yn cadw cofnod o sefydliadau ac unigolion y mae'r is-adran yn gwybod eu bod yn ffafrio cynnal cyfarfodydd yn Gymraeg. Caiff y manylion hyn eu bwydo i mewn i gronfa ddata ganolog fydd yn nodi pa iaith sy'n cael ei ffafrio gan sefydliadau.

Wrth drefnu cyfarfod cyhoeddus neu gyfarfod â sefydliad neu unigolyn, byddwn yn cysylltu er mwyn darganfod pa iaith sy'n cael ei ffafrio os nad ydym eisoes yn gwybod hynny.

Mae staff yn ymwybodol o bryd a sut i drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd. Mae offer symudol ar gael i'w defnyddio y tu allan, neu fel offer ychwanegol o fewn ein swyddfeydd yng Nghaerdydd. Yr ydym yn parhau i hurio contractwyr preifat pan fyddwn angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle nad yw Prif Weinidog Cymru neu un o Weinidogion y Cynulliad yn bresennol neu mewn cyfarfodydd y tu allan i

Gaerdydd.

Cyflwyno'n delwedd gyhoeddus

Bydd ein delwedd gorfforaethol a'n delwedd gyhoeddus yn gwbl ddwyieithog

- Bydd enw a gwybodaeth gysylltiedig y Cynulliad Cenedlaethol yn ddwyieithog ar ein harwyddion, logo, cloriau cyhoeddiadau, penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, taflenni ffacs, cardiau busnes staff, bathodynau adnabod a phethau eraill sy'n cael eu harddangos yn gyhoeddus.
- Mae pob arwydd yn ein hadeiladau ac o'u hamgylch yn ddwyieithog, lle bo hyn o dan ein rheolaeth. Byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg a ddefnyddir yn gywir ac yn y ffurf fwyaf priodol.
- Bydd pob 'auto-signature' e-bost yn ddwyieithog.
- Ar gyfer arwyddion newydd, neu arwyddion sy'n cael eu hadnewyddu byddwn yn ffafrio gosod y ddwy iaith ochr wrth ochr gyda'r Gymraeg ar y chwith. Pan fydd un iaith yn cael ei gosod uwchben y llall caiff y fersiwn Cymraeg ei osod uwchben y Saesneg.
- Caiff staff eu hannog i lunio negeseuon 'out of office' dwyieithog ar eu systemau e-bost pan fyddant ar wyliau.

Camau Gweinyddol

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu wedi llunio rhestr o enwau is-adrannau yn Gymraeg, sydd ar gael ar y Fewnryd, er mwyn cynorthwyo staff i lunio'u 'auto-signatures'

Arwyddion Traffig

- Bydd yr arwyddion yr ydym yn gyfrifol amdanynt (arwyddion traffyrdd a chefnffyrdd yn bennaf) yn ddwyieithog. Bydd arwyddion negeseuon testun amrywiol electronig yn y dyfodol yn gallu dangos negeseuon dwyieithog.
- Yr eithriadau i'r uchod yw sefyllfaoedd pan na fyddai'n ymarferol resymol am resymau diogelwch ar y ffordd neu resymau technegol i gael arwyddion dwyieithog. Er enghraifft pan nad yw ffyrdd deuol o'r lled arferol neu pan fo gwrychoedd neu waliau ar ymylon y ffyrdd fel nad oes digon o le ar gyfer yr arwyddion dwyieithog safonol mwy.
- Lle bo modd, caiff negeseuon dwyieithog wedi'u symleiddio eu defnyddio ar yr arwyddion negeseuon amrywiol electronig presennol. Lle nad yw hyn yn bosibl byddwn yn gosod negeseuon Cymraeg a Saesneg ar arwyddion cyfagos os oes digon o arwyddion gerllaw.
- Caiff y polisi ar gyfer arwyddion negeseuon amrywiol electronig eu hadolygu yn dilyn cyhoeddi ymchwil a gomisiynwyd gan y Gyfarwyddiaeth Briffyrdd.

- Byddwn yn cymeryd pob mesur sy'n rhesymol ymarferol i oresgyn yr anawsterau sy'n rhwystr i arwyddion dwyieithog.
- Byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio Cymraeg cywir a'r ffurf fwyaf priodol.
- Pan fydd y ddwy iaith wedi'u cynnwys ar yr un arwydd gydag un iaith uwchben y llall, byddwn yn dilyn yr arfer a fabwysiadwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod Lleol lle mae'r arwydd wedi'i leoli.
- Yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol weithredu eu cynlluniau iaith Gymraeg mewn perthynas ag arwyddion ffyrdd a marciau ffordd sydd o fewn eu cyfrifoldeb.

Amseru

Yr ydym wedi gwneud cynnydd cyson yn y maes hwn ac ar hyn o bryd mae tua 90% o arwyddion traffyrdd a chefnffyrdd yn ddwyieithog. Caiff arwyddion dwyieithog eu gosod yn lle'r rhai uniaith Saesneg pan ddaw'n amser i'w hadnewyddu (oni bai fod ystyriaethau diogelwch ffyrdd neu dechnegol yn golygu nad yw'n rhesymol ymarferol i osod arwyddion dwyieithog yn eu lle). Yr ydym wastad yn croesawu sylwadau oddi wrth y cyhoedd ynghylch unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i'r arwyddion dwyieithog ar ein cefnffyrdd a'n traffyrdd. Dylai'r cyhoedd ffonio ein His-adran Polisi Trafnidiaeth ar 029 2082 6502 os oes ganddynt sylwadau ar yr arwyddion ffyrdd yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Cyhoeddiadau'r Cynulliad

Bydd yr holl gyhoeddiadau newydd y byddwn yn eu paratoi fel rhan o'n gwasanaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Yr hyn a olygir gan 'gyhoeddiad' yw dogfen sy'n cynnwys gwybodaeth yr ydym am ei throsglwyddo i'r cyhoedd. Nid yw'r term 'cyhoeddiad' yn cynnwys dogfennau mewnol yr ydym yn cytuno i'w darparu i'r cyhoedd ar eu cais. Mae cyhoeddiadau yn cynnwys pamffledi a thafleuni, cardiau, tystysgrifau, dogfennau ymgynghori, poster, sticeri, nodiadau canllaw, codau ymarfer, hysbysiadau cyhoeddus a chylchlythyrau.

Yr unig eithriadau fydd:

- dogfennau sy'n hwy na [25,000] gair neu [50] tudalen mewn hyd – ar gyfer y rhain byddwn yn cynhyrchu crynodeb gweithredol dwyieithog o'u cynnwys.
- Pan fydd llai na [chant] copi yn cael eu hargraffu.
- Dogfennau rhaglen y byddwn yn cytuno arnynt â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn ategu rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru.
- Dogfennau gwaith nad ydynt wedi'u cwblhau'n derfynol. (Efallai y byddwn yn rhannu'r dogfennau hyn â chydweithwyr mewn sefydliadau eraill). Fodd bynnag, caiff dogfennau ymgynghori ffurfiol eu trin fel cyhoeddiadau arferol.

- Dogfennau y mae angen, oherwydd amgylchiadau eithriadol, eu hanfon ar frys ac y byddai'r derbynwyr o dan anfantais pe na baent yn derbyn y wybodaeth yn sydyn. Bydd angen i'r Is-adrannau gyfiawnhau a chofnodi enghreifftiau o'r fath.

Bydd cyhoeddiadau wedi'u priso y'u bwriedir i fodloni galw masnachol ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar yr amod ei bod hi'n ymddangos bod posibilrwydd gwirioneddol o adennill costau cynhyrchu drwy werthiant, neu os oes amgylchiadau eraill yn argymhell hynny. Bydd amgylchiadau o'r fath yn dibynnu ar y pwnc dan sylw (a allai fod yn hynod o berthnasol i gynulleidfa Gymraeg); p'un a oes 'angen i wybod'; maint y diffyg ariannol, a allai gael ei ddylanwadu gan faint y gyfrol neu'r nifer i'w hargraffu; a ffactorau ychwanegol a ddaw i'r amlwg yn ôl union natur yr achosion unigol.

Fel arfer bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd mewn un ddogfen ddwyieithog . Weithiau, am resymau ymarferol (megis maint y ddogfen neu er mwyn manteisio ar ddogfennau sy'n cael eu cyhoeddi gan adrannau llywodraeth y DU sy'n ymwneud â Lloegr yr hoffem eu hystyngi i Gymru), caiff fersiynau Cymraeg a Saesneg eu cyhoeddi ar wahân. Pan fyddwn yn cyhoeddi ar wahân yn Gymraeg a Saesneg, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, eu bod hi yr un mor hawdd i'r cyhoedd gael gafael arnynt a'u bod yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd lle bo hynny'n rhesymol o ymarferol, gan ddibynnu ar y gost a'r brys. Os na fyddwn yn cyhoeddi dogfen yn y ddwy iaith ar yr un pryd byddwn yn mynd ati i gyfieithu i'r Gymraeg y dogfennau hynny y mae gwerth hanesyddol yn perthyn iddynt neu yr ydym yn tybio y bydd pobl am gyfeirio atynt yn y dyfodol. Fodd bynnag byddai hyn yn cael ei gofnodi fel methiant i gydymffurfio â'r cynllun.

Bydd cyhoeddiadau uniaith Gymraeg ac uniaith Saesneg y Cynulliad yn cynnwys neges a fydd yn datgan bod y cyhoeddiad hefyd ar gael yn yr iaith arall.

Pan fyddwn yn codi pris am gyhoeddiad dwyieithog, ni fydd y pris yn fwy na phris fersiwn uniaith o'r cyhoeddiad hwnnw. Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn costio yr un faint.

Pan fydd dogfennau yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn o'r un ansawdd, yr un maint o ran diwyg ac amlygrwydd.

Mae'r ymrwymadau hyn yn berthnasol i gyhoeddiadau newydd ac i ddogfennau presennol sy'n cael eu diwygio neu eu hailgyhoeddi, hyd yn oed os nad ydynt ar gael ar y pryd mewn ffurf ddwyieithog.

Cylchlythyrau a Chanllawiau

Mae'r Cynulliad yn cyhoeddi cylchlythyrau a chanllawiau i Awdurdodau Lleol, yr NHS a chyrrff

eraill sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur, yn rheolaidd. Mae rhai cylchlythyrau a chanllawiau yn cael eu hystyried fel is-ddeddfwriaeth (gweler Adran 2 uchod). Pan nad yw canllawiau neu gylchlythyrau yn cael eu hystyried fel is-ddeddfwriaeth:

- Yr ydym yn cyhoeddi cylchlythyrau Addysg yn ddwyieithog, gan fod galw mawr amdanynt gan eu cynulleidfa;
- Ni fyddwn fel arfer yn cyhoeddi cylchlythyrau Iechyd a Chylchlythyrau eraill yn ddwyieithog. Efallai fodd bynnag y byddwn yn cyhoeddi rhai o'r rhain yn ddwyieithog, pan fyddwn o'r farn eu bod o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.

Camau Gweinyddol

Mae staff yn ymwybodol o'r mathau o ddogfennau a ddylai fod yn ddwyieithog, a'r rheol gyffredinol yw y bydd dogfennau sy'n cael eu paratoi fel gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd Swyddogion Dwyieithrwydd yn cynnig cyngor ac yn gallu rhoi eglurhad i unrhyw aelod o staff sydd ag amheuaeth ynghylch y gofynion ar gyfer cyhoeddi.

Bydd yr Is-adran Gyfathrebu yn darparu canllawiau ysgrifenedig i'r staff, ymgynghorwyr, dylunwyr a chyhoeddwr ar gyfer delio â chyhoeddiadau dwyieithog. Bydd Arweiniad Bwrdd yr Iaith i Ddylunio Dwyieithog ar gael i bawb fydd yn ymwneud â chyhoeddi.

Cyhoeddiadau ar y cyd ag Adrannau'r Llywodraeth

Yr ydym yn cyhoeddi dogfennau law yn llaw ag Adrannau Llywodraeth y DU mewn perthynas â rhai materion lle mae Gweinidogion y DU ac Aelodau Cynulliad yn gweithredu ar y cyd.

- Pan fo'r ddogfen yn cael ei chyhoeddi gennym ni neu ar y cyd ag un o Adrannau Eraill Llywodraeth y DU, byddwn yn cydweithio'n agos ag adrannau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau bod y ddogfen wrth iddi gael ei llunio yn cydymffurfio â'r cynllun. Fel arfer bydd y math hwn o gydweithredu yn golygu gwneud penderfyniad ar y cyd ar sut i baratoi'r ddogfen a'r amserlen ar ei chyfer. Mewn achosion o'r fath byddwn yn gyfrifol am fodloni'r anghenion iaith Gymraeg.
- Weithiau ni fydd yn bosibl i gyhoeddi dogfennau yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Er enghraifft, os na fyddwn yn cael digon o rybudd gan adran o Lywodraeth y DU. Mewn achos o'r fath byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg gyda'i gilydd yng Nghymru yn fuan wedi hynny. Fodd bynnag, lle gallai oedi wrth gyhoeddi yng Nghymru effeithio ar fuddiannau y bobl sy'n cael eu heffeithio gan ein busnes byddwn wedyn yn ystyried cyhoeddi dogfen ar wahân yn Saesneg i ddechrau

cyn mynd ati i gyhoeddi fersiwn Cymraeg. Pan fyddwn yn gwneud hyn byddwn yn datgan yn glir ei bod hi'n fwriad gennym i ddarparu fersiwn Cymraeg. Bydd angen i'r Is-adrannau gyfiawnhau a chadw cofnodion o achosion o'r fath.

Dogfennau Eraill a gyhoeddir gan Adrannau'r Llywodraeth

- Bydd dogfennau sy'n cael eu cyhoeddi gan Adrannau'r Llywodraeth yr ydym yn ymgynghori arnynt yng Nghymru ar ran Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn cael eu dosbarthu yn yr iaith/ieithoedd y byddwn yn eu derbyn oddi wrth yr Adran o'r Llywodraeth dan sylw.
- Weithiau efallai y byddwn yn dosbarthu er diddordeb neu wybodaeth i sefydliadau perthnasol ddogfen wedi ei llunio gan Adran o'r Llywodraeth ar gyfer cynulleidfa yn Lloegr. Fel arfer byddwn yn dosbarthu dogfennau o'r fath yn Saesneg.

Amseru

Pan fyddwn yn cyhoeddi fersiynau Cymraeg o gydgyhoeddiadau, yr ydym eisoes yn dilyn yr egwyddorion hyn. Ein nod yw gweithio ag Adrannau Llywodraeth y DU er mwyn cynyddu nifer yr achlysuron pan gyhoeddir yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd, tra'n cydnabod nad yw dyddiadau cyhoeddi yn gyfan gwbl o fewn ein rheolaeth.

Camau Gweinyddol

Bydd yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn llunio canllawiau gwaith ar gyfer staff y Cynulliad sy'n gyfrifol am gyhoeddi cyhoeddiadau ar y cyd ag Adrannau Llywodraeth y DU.

Cyhoeddiadau Ystadegol

Bydd yr ymrwymadau uchod ar gyfer cyhoeddiadau cyffredinol yn berthnasol i gyhoeddiadau ystadegol a baratowyd ar gyfer y cyhoedd hefyd.

Yr ydym wedi sefydlu gwasanaeth ffôn Cymraeg i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd sy'n chwilio am wybodaeth am ystadegau'r Llywodraeth. Bydd y gwasanaeth hwn yn ateb ymholiadau uniongyrchol a lle bo hynny'n addas, yn awgrymu pwy yn y Cynulliad Cenedlaethol neu yn un o Adrannau'r Llywodraeth a fyddai'n gallu rhoi mwy o wybodaeth am y mater dan sylw. Y rhif i'w ffonio yw 029 2082 5335. Dyfynnir y rhif hwn ar bob cyhoeddiad a gynhrychir gan yr uned ystadegau.

Crynodebau, Cyhoeddiadau ac Adroddiadau Ystadegol

Nid yw'r adnoddau'n caniatáu i'r holl grynodedbau, cyhoeddiadau ac adroddiadau ystadegol

gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Y brif flaenoriaeth fydd dogfennau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, addysg a hyfforddiant, amaethyddiaeth ac iechyd a materion sydd â phroffil cyhoeddus uchel iawn.

Camau gweinyddol

Erbyn hyn, ceir cyfieithydd arbennig ar gyfer yr Uned Ystadegau.

Ffurflenni

- Bydd ffurflenni ar gyfer y cyhoedd, ac unrhyw esboniadau sydd ynghlwm wrthynt, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Ein nod yw cynhyrchu cymaint o ffurflenni â phosibl yn ddwyieithog. Pan fydd dogfen unigol yn rhy hir neu'n rhy dew neu'n anodd ei phrosesu, caiff fersiynau ar wahân yn y Gymraeg a'r Saesneg eu cyhoeddi ar yr un pryd. Bydd yr un mor hawdd i'r cyhoedd gael gafael ar y ddau fersiwn.
- Bydd neges ar fersiynau ar wahân ein ffurflenni yn nodi eu bod hefyd ar gael yn yr iaith arall.
- Pan fydd eraill yn dosbarthu fersiynau ar wahân ar ein rhan, byddwn yn pwysleisio y dylai fod yr un mor hawdd i gael gafael ar y ffurflen Gymraeg â'r ffurflen Saesneg.
- Pan fydd y Cynulliad yn llenwi gwybodaeth safonol ar ffurflenni a anfonir at y cyhoedd, bydd yn llenwi'r ffurflen Gymraeg yn ogystal â'r un Saesneg.
- Bydd ffurflenni y mae eu geiriad yn amodol ar un o offerynnau statudol y Cynulliad yn ddwyieithog, oni fydd Gweinidog y Cynulliad sy'n gyfrifol am greu'r offeryn statudol o dan sylw o'r farn bod hynny'n amhriodol o dan yr amgylchiadau, neu nad yw'n rhesymol ymarferol i'r offeryn fod yn y Gymraeg a'r Saesneg. Pan fyddwn yn cyhoeddi ffurflenni ar y cyd ag adrannau llywodraeth y DU byddwn yn dilyn y gweithdrefnau a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer cyhoeddiadau ar y cyd.

Y Rhyngrwyd

Ar hyn o bryd mae gennym ddwy wefan, y naill yn Gymraeg www.cymru.gov.uk a'r llall yn Saesneg www.wales.gov.uk. Mae ein gwefan yn cynnwys y canlynol:

- Bydd tudalennau am bolisiau a gwybodaeth ar gael ar y Rhyngrwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Bydd yr holl lywio yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Os hoffech gysylltu â ni dros y Rhyngrwyd, bydd yr un egwyddor ag ar gyfer cyfathrebu'n ysgrifenedig a dros y ffôn yn berthnasol;
- Byddwn yn gweithredu'r un egwyddorion ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein cyhoeddiadau ar y rhyngrwyd a'r rhai sydd wedi eu nodi yn y cynllun hwn o dan cyhoeddiadau. Bydd y dogfennau a gyhoeddir gennym hefyd ar gael i'r un graddau ar y

Rhyngrwyd ag ar ffurf copi caled.

- Ein nod yw cyhoeddi ein cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg ar y Rhyngrwyd ar yr un pryd. Fodd bynnag, os na fydd dogfen ar gael yn y Gymraeg ar unwaith, ceir neges yn datgan pryd y caiff y ddogfen ei chyhoeddi yn Gymraeg neu'r dewis i archebu'r ddogfen yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnir i'r is-adrannau gyfiawnhau achosion lle na chaiff dogfennau eu cyhoeddi'n ddwyieithog a chadw cofnod ohonynt.
- Pan fydd un o'n gwefannau neu ran o un ohonynt wedi'u hanelu at bobl y tu allan i Gymru, er mai'r brif iaith a ddefnyddir yw'r Saesneg, byddwn bob amser yn ystyried cynnwys y Gymraeg a ieithoedd eraill lle bo hynny'n briodol.

Yn unol â'n haddewid i wneud ein llywodraeth yn fwy agored, yr ydym yn ei gwneud haws i'r cyhoedd gael gafael ar y **dogfennau mewnol** a gynhyrchir gennym o ddydd i ddydd, drwy eu cyhoeddi ar y Rhyngrwyd.

- Pan gyhoeddir y dogfennau hyn ar y Rhyngrwyd, fe'u cyhoeddir yn yr iaith wreiddiol. Bydd y dogfennau hyn yn ymddangos ar y wefan Gymraeg a'r wefan Saesneg yn yr iaith wreiddiol. Am ragor o wybodaeth, gweler ein Cod Ymarfer ar Wybodaeth Gyhoeddus.

Sylwer: Dylai Defnyddwyr y Rhyngrwyd fod yn ymwybodol mai Swyddfa'r Llywydd sy'n cynnal rhai o'r tudalennau ar wefannau'r Cynulliad. Tudalennau yw'r rhain yn bennaf sy'n rhoi gwybodaeth am waith y Cynulliad a'i bwyllgorau; gwybodaeth i Aelodau'r Cynulliad (AC) ac amdanynt a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd. Nid yw'r cynllun hwn yn berthnasol i dudalennau Swyddfa'r Llywydd ar y gwefannau.

Hysbysiadau i'r Wasg a Chynadleddau i'r Wasg

- *Mae'r adran hon yn cael ei haildrafftio*

Ymgyrchoedd Cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd, Hysbysebion

Bydd y gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal.

- Bydd ein holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd (e.e. poster, tapiau, cyhoeddiadau neu fideos) yn mynegi negeseuon yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Ymddengys hysbysebion mewn papurau newydd yng Nghymru yn ddwyieithog mewn papurau Saesneg eu hiaith, ac yn uniaith Gymraeg mewn papurau Cymraeg eu hiaith.
- Bydd ymgyrchoedd teledu sydd ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn y Gymraeg.

- Bydd ymgyrchoedd radio ar Radio Cymru yn y Gymraeg.
- Bydd ein harddangosfeydd a'n hysbysfyrddau i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd y ddwy iaith yr un mor amlwg â'i gilydd mewn arddangosfeydd yn ystod digwyddiadau lleol a chenedlaethol.
- Gall staff sy'n gweithio mewn arddangosfeydd yn ystod digwyddiadau cenedlaethol neu ddigwyddiadau mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith (siroedd lle mae mwy na 25% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg) yn gallu ateb ymholiadau yn y ddwy iaith.
- Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn cael eu gweithredu'n ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ar wahân i bobl sydd am ymateb yn Gymraeg.

Camau gweinyddol

Mae gan ein Cangen Gyhoeddusrwydd brofiad helaeth o ymgyrchoedd dwyieithog ac mae bob amser yn ceisio gwella effeithiolrwydd negeseuon ymgyrch cyfrwng Cymraeg.

Arolygon Cyhoeddus

- Byddwn yn cynnal ein harolygon cyhoeddus –arolygon i gasglu gwybodaeth neu i ganfod barn y cyhoedd er enghraifft – yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Caiff cwestiwn safonol ei gynnwys ym mhob un o'n harolygon cyhoeddus yn gofyn i'r rhai sy'n ymateb a hoffent ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Bydd modd i unrhyw un sy'n ymateb i arolygon traffig gael eu cyfweld yn y Gymraeg.
- Gofynnir i'r rhai sy'n ymateb fynegi eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg, lle bo hynny'n briodol.

Camau gweinyddol

Pan fydd aelodau o'n staff ein hunain yn cynnal arolygon cyhoeddus, fe'u cynhelir yn ddwyieithog. Pan ddefnyddir sefydliad masnachol i gynnal arolwg ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gallu darparu'r gwasanaeth yn ddwyieithog yn unol ag adran 10. Byddwn yn gofalu fod unrhyw gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd arolygon cyhoeddus a gynhelir ar y cyd ag adrannau o Lywodraeth y DU yn gweithredu yn ôl yr un ymrwymadau â chyhoeddiadau ar y cyd. Byddwn yn ymdrechu i sicrhau fod arolygon ar y cyd yn cael eu

cynnal yn ddwyieithog.

Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio

- Bydd hysbysiadau cyhoeddus mewn papurau newydd a leolir yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Ymddengys hysbysebion recriwtio staff (a hysbysebion ar gyfer penodiadau cyhoeddus) yn ddwyieithog mewn papurau newydd Cymreig ac mewn canolfannau gwaith. Yn y Gymraeg yn unig y byddwn yn hysbysebu ar gyfer swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, gan roi eglurhad byr yn Saesneg. Ymddengys hysbysebion yn y wasg Brydeinig yn Saesneg oni fyddai'n fwy addas i hysbysebu'n ddwyieithog, er enghraifft pan fyddwn am dargedu siaradwyr Cymraeg sy'n byw ledled y DU.
- Bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos ochr yn ochr. Os na fydd hyn yn bosibl, gosodir un iaith uwch ben y llall, â'r fersiwn Gymraeg uwch ben y Saesneg.

Camau gweinyddol

Mae ein staff wedi cael eu hysbysu y dylid ufuddhau i'r ymrwymadau hyn wrth hysbysebu swyddi, hyd yn oed os nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn ffactor bwysig ar gyfer y swyddi sydd i'w llenwi. Caiff hysbysebion a hysbysiadau cyhoeddus eu rhoi yn y wasg gan y Gangen Gyhoeddusrwydd a fydd yn sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu cyflawni.

8. Y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan sefydliadau eraill

Mae rhai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn cael eu gweithredu ar ein rhan gan sefydliadau eraill megis asiantwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr. Mae rhai cyrff cyhoeddus megis Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad hefyd yn darparu gwasanaethau ar ein rhan.

Mewn achosion lle mae'r cyfrifoldeb statudol a'r rheolaeth dros gyflwyno'r gwasanaethau ar ein hysgwyddau ni:

- Byddwn yn sicrhau drwy drefniadau cytundebol bod y sefydliadau yn dilyn amodau'r cynllun hwn lle bo hynny'n berthnasol i'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar ein rhan. Mae'r un amod yn berthnasol i unrhyw wasanaeth y maent yn ei is-contractio.
- Pan fyddwn yn rhoi gwasanaethau newydd neu wasanaethau sydd eisoes yn bodoli o dan ofal contractwyr neu'n cynnal Arbrofion Marchnad arnynt, byddwn nodi yn y llythyr manyleb neu'r dogfennau tendro ar gyfer y gwaith dan sylw pa agweddau o'r gwaith yr ydym yn disgwyl i'r contractiwr eu darparu yn ddwyieithog (os o gwbl).
- Caiff canllawiau i gyflenwyr eu cynnwys yn ein Llyfryn – Gwerthu i Gynulliad

Cenedlaethol Cymru, ar sut y dylid trin y ddwy iaith ar y sail eu bod yn gyfartal mewn gwasanaethau i'r cyhoedd, yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg.

Amseru

Byddwn yn dilyn yr ymrwymïadau hyn wrth gynhyrchu'r holl gytundebau newydd a'r cytundebau adnewyddu.

Camau gweinyddol

Byddwn yn sicrhau bod yr ymrwymïadau hyn yn cael eu cyflawni ar gyfer ein holl gytundebau.

Mae Llawlyfrau Caffael y Staff yn rhoi arweiniad i is-adrannau ar sut i benderfynu a yw'r Cynllun Iaith Gymraeg yn berthnasol i'w cytundebau ag asiantaethau allanol.

Bydd pob un o'n ffurflenni gwirio tendr caffael ar gyfer pob caffaeliad sy'n werth dros £10,000 yn dangos fod y gofynion ieithyddol wedi cael eu hystyried.

Bydd rheolwyr contract yn gyfrifol am fonitro bod contractwyr yn cydymffurfio â'r cynllun a byddant yn adrodd ar hyn yn adroddiad monitro blynyddol y cynllun.

Er y bydd gwasanaethau a fyddai wedi cael eu darparu gennym ni fel rheol, ond a weithredir gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o dan gontract neu gytundeb penodol, yn gaeth i'r ymrwymïadau hynny, nid yw gweithgareddau arferol y CCNC yn disgyn o fewn cwmpas ein cynllun.

9. Staffio

I'r cynllun hwn fod yn llwyddiannus, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gael digon o staff sydd â'r sgiliau addas i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar amrywiaeth o lefelau cyfrifoldeb a swyddogaeth, ac sydd mewn sefyllfa dda i wasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yn eu swyddi penodol neu fel aelodau o dîm ardal neu dîm swyddfa sy'n darparu gwasanaeth arbennig.

Bydd yn rhaid i Benaethiaid yr Is-adrannau benderfynu sut orau i gyflawni'r amcan hwn: drwy hyfforddi, neu drwy recriwtio staff. Bydd y gallu i siarad Cymraeg yn un o'r lluo o fedrau a gaiff eu hystyried wrth recriwtio staff newydd, yn unol â Pholisi Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol.

Camau gweinyddol

Bydd yr Is-adran Rheoli Personél yn llunio strategaeth gyffredinol i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg Gweision Sifil. Nod y strategaeth yw galluogi rhwng 10% ac 20% o Weision Sifil y Cynulliad i wneud eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2010. Caiff y strategaeth ei chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Bydd y strategaeth yn nodi amrywiaeth o dargedau ac ymrwymadau i fuddsoddi yn hyfforddiant staff y Cynulliad.

Bydd pob is-adran yn llunio strategaeth ac amserlen staffio is-adrannol er mwyn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd yn y Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y strategaeth is-adrannol yn ffurfio rhan o'r cynllun is-adrannol. Bydd yn amlinellu anghenion ieithyddol yr is-adran mewn perthynas â faint o gysylltiad y mae'r is-adran yn ei gael â'r cyhoedd, ar ôl ystyried y canlynol: llythyrau a atebir ar ran Gweinidogion y Cynulliad, llythyrau a atebir gan swyddogion, llythyrau safonol, ffurflenni busnes safonol, cylchlythyrau, nifer y galwadau ffôn a dderbynnir gan y cyhoedd, cyfarfodydd allanol.

Bydd y strategaeth is-adrannol yn nodi faint o staff sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg sydd eu hangen ar yr is-adran, er mwyn ei galluogi i gyflwyno ei gwasanaethau i'r cyhoedd yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth ymgynghori â'r Is-adran Personél, bydd pob is-adran yn nodi'r prif swyddi [e.e. swyddi rheng flaen] y credir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer. Bydd pob is-adran hefyd yn nodi faint o siaradwyr Cymraeg sy'n hanfodol neu'n ddymunol o fewn pob tîm. Bydd yr is-adrannau'n cynhyrchu disgrifiadau o'r canghennau a'r swyddi yn unol â hynny. Bydd disgrifiadau a chynlluniau swyddi yn cynnwys cyfeiriadau at waith dwyieithog lle bo hynny'n addas. Lle nad yw'r is-adrannau'n ymwneud rhyw lawer â'r cyhoedd, dylent nodi eu gofynion ieithyddol, os oes ganddynt rai o gwbl.

Bydd yr Is-adran Rheoli Personél, ar ôl ymgynghori â'r Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, yn cynnal archwiliad o nifer y siaradwyr Cymraeg neu nifer y bobl sy'n dysgu Cymraeg ymhlith staff presennol y Cynulliad, a bydd yn nodi i ba raddau y gallant weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff dadansoddiad o leoliad y siaradwyr a'r dysgwyr Cymraeg ei ddarparu hefyd. Bydd yr is-adrannau'n defnyddio'r wybodaeth hon i fwrw ymlaen â'u strategaethau is-adrannol, a bydd yr Is-adran Rheoli Personél yn defnyddio'r wybodaeth i fwrw ymlaen â'u strategaeth gyffredinol.

Bydd strategaeth yr Is-adran Rheoli Personél a'r strategaethau is-adrannol yn cael eu llywio gan y targedau canlynol ar gyfer y Cynulliad yn ei gyfanrwydd. Caiff y targedau hyn eu rhoi ar waith o fewn 2 flynedd wedi i'r cynllun hwn ddod i rym:

- bydd yr holl Is-adrannau'n sicrhau fod staff dwyieithog yn gweithio ym mhob un o swyddi rheng-flaen gwasanaethau cyhoeddus. Wrth ddweud swyddi rheng-flaen gwasanaethau cyhoeddus, sôn yr ydym am swyddi sy'n darparu gwybodaeth i'r cyhoedd fel eu prif swyddogaeth.
- bydd yr holl Is-adrannau'n gallu ufuddhau â gofynion y cynllun hwn o ran derbyn galwadau ffôn yn y Gymraeg.

- bydd gan yr holl Is-adrannau gyfrifoldeb i fod ag un aelod o staff sy'n gallu cynghori cydweithwyr ar gynnwys llythyrau a dderbynnir yn y Gymraeg, er mwyn penderfynu sut i ddelio â hwy. Hwyrach y gall ddelio â llythyrau syml heb orfod troi at y Gwasanaeth Cyfieithu.

Dyhead hir dymor y Cynulliad yw ei gwneud hi'n bosibl i fwy o waith gael ei gynnal yn ddwyieithog yn y Gwasanaeth Sifil. Erbyn 2010, yr ydym yn gobeithio y gallai fod yn bosibl inni wneud peth cynnydd at gyrraedd y targedau canlynol (byddwn yn adolygu dichonoldeb hyn bob 3 blynedd):

- bydd pob Is-adran yn gyfrifol am ddrafftio eu hymatebion eu hunain i lythyrau Cymraeg. Bydd y gwasanaeth cyfieithu yn gwirio eu bod yn gywir.
- bydd pob Is-adran yn gyfrifol am baratoi gohebiaeth ysgrifenedig o dan 500 o eiriau yn ddwyieithog (lle bo hynny'n ofynnol yn ein cynllun iaith). Bydd y gwasanaeth cyfieithu'n gwirio eu bod yn gywir.
- bydd pob Is-adran yn drafftio atebion i gwestiynau ysgrifenedig i Gabinet y Cynulliad yn y ddwy iaith. Bydd y gwasanaeth cyfieithu yn gwirio fod pob ateb yn gywir.
- bydd pob Is-adran yn gyfrifol am baratoi tablau a diagramau yn ddwyieithog (ac eitemau tebyg sydd ag ychydig iawn o gynnwys ysgrifenedig). Bydd y gwasanaeth cyfieithu'n gwirio eu cywirdeb.
- bydd pob Is-adran yn gallu paratoi cyfarwyddiadau ar gyfer y Rhynggrwyd yn ddwyieithog. Bydd y gwasanaeth cyfieithu/BIS yn gwirio eu bod yn gywir.
- bydd pob Is-adran yn gallu adolygu drafftiau o ddogfennau a gyfieithwyd yn y ddwy iaith.

Cyfrifoldeb Penaethiaid yr Is-adrannau yw mynegi anghenion ieithyddol eu his-adran i'r Is-adran Rheoli Personél, a chadw swyddi lle mae siaradwr Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol dan arolwg.

Bydd yr Is-adran Rheoli Personél yn cadw manylion am allu ieithyddol eu staff. O 2001 ymlaen, gall y staff gyrchu eu manylion personol a diweddarau eu cofnodion os yw eu gallu ieithyddol wedi newid. [Caiff adroddiad ar y cofnodion hyn ei amgáu ag adroddiad cydymffurfio cynllun].

Nodir pa staff sy'n siarad Cymraeg yn yr is-adrannau ar Restr Dosbarthu Busnes y Cynulliad.

Recriwtio

Yr ydym yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg am unrhyw swydd a hysbysebhir. Mewn unrhyw ymarfer recriwtio bydd yr holl ymgeiswyr, p'un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio, yn cael eu trin yn deg. Er mwyn annog siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi a hysbysebhir yn y dyfodol:

- Byddwn yn nodi'n glir pa allu ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd(i) a hysbyseb, lle caiff ei ystyried yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd honno. Pan fyddwn yn chwilio am siaradwr Cymraeg ond na lwyddwyd i benodi un, gallwn ofyn i'r person a benodir, lle bo hynny'n addas, wneud ymrwymiad cadarn i ddysgu Cymraeg o fewn cyfnod penodol sy'n adlewyrchu lefel y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd.
- Mewn rhai achosion byddwn yn gosod hysbyseb recriwtio swydd mewn papurau newydd Cymraeg eu hiaith, hyd yn oed pan nad yw'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd.
- Os ceir diffyg sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg, byddwn yn ystyried cynnal ymarfer recriwtio am siaradwyr Cymraeg.
- Byddwn yn parhau i ddarparu pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gall yr ymgeiswyr ateb yn eu dewis iaith. Gellir cyfieithu ffurflenni cais a gwblheir yn y Gymraeg i'r Saesneg er mwyn eu prosesu yn fewnol, ar yr amod fod yr ymgeisydd yn cytuno â hynny. Gall yr ymgeiswyr hefyd ddarparu eu cyfieithiad eu hunain.

Hyfforddiant Ieithyddol

Ein nod yw y bydd gan bob is-adran ddigon o staff sydd â'r sgiliau ieithyddol priodol er mwyn cynnal gwasanaeth yr is-adran i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Mae hyfforddiant ieithyddol yn rhan bwysig o'r broses o gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn annog ei staff i ymgymryd â hyfforddiant ieithyddol er mwyn hwyluso'r broses o roi'r cynllun ar waith. Cynigir hyfforddiant addas i'r staff yn ôl eu hanghenion yn y gwaith. Caiff pob aelod o staff sy'n ymgymryd â hyfforddiant eu hannog i nodi rhannau o'u gwaith lle byddant yn gallu defnyddio'r Gymraeg. Pan fyddwn yn canfod pa aelodau o staff sydd â chymwysterau yn y Gymraeg neu sydd â'r gallu i ddysgu ieithoedd yn gyflym, byddwn yn eu hannog i ddatblygu neu feithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy ddilyn cwrs Cymraeg addas.

Caiff strategaeth yr Is-adran Rheoli Personél ei rhoi ar waith trwy gyfrwng sawl math o hyfforddiant ieithyddol.

Hyfforddiant Ieithyddol i'r Staff

Staff nad oes ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol o'r Gymraeg

- cyfarch yn ddwyieithog
- cynnal sgwrs syml yn Gymraeg
- cyrsiau dwys

Staff sydd â gwybodaeth flaenorol o'r Gymraeg

- gwneud gwaith syml ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg
- darparu cyfieithiadau sylfaenol o bynciau gohebiaeth (Cymraeg – Saesneg)

Hyfforddi siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf/dysgwyr Cymraeg profiadol

- gwneud gwaith ysgrifenedig a llafar cymhleth yn y Gymraeg

Camau gweinyddol

Blaenoriaeth Penaethiaid yr Is-adrannau yw rhoi hyfforddiant yn y Gymraeg, yn ôl anghenion staff eu his-adrannau, i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg.

Bydd yr holl gynlluniau datblygu personol yn cwmpasu'r angen (os oes angen o gwbl) am hyfforddiant iaith Gymraeg.

Dylai dysgwyr Cymraeg a'r rhai sydd am loywi eu Cymraeg drafod ffyrdd o ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith â'u rheolwyr llinell. Bydd Rheolwyr Llinell yn adolygu eu hyfforddiant a'u datblygiad ddwywaith y flwyddyn.

Bydd y Cydlynwyr Hyfforddiant a Datblygiad yn trefnu system fentora i greu cysylltiad rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg er mwyn eu cynorthwyo â'u sgiliau llafar ac ysgrifenedig.

Mae'r Gangen Recriwtio a Datblygu yn trefnu grwpiau cymorth i ddysgwyr Cymraeg lle gall ddysgwyr Cymraeg alw heibio i ymarfer y sgiliau y maent wedi'u dysgu yn eu dosbarthiadau.

Darperir hyfforddiant galwedigaethol i aelodau'r staff sy'n siarad Cymraeg ar sail galw.

Cyfarwyddiadau a Chanllawiau

Bydd ein Swyddog Iaith Canolog yn rhyddhau canllawiau cyffredinol i'r staff ar sut i roi'r Cynllun Iaith Gymraeg ar waith. Bydd pob aelod o staff yn derbyn copi ysgrifenedig o'r canllawiau hyn. Byddant hefyd ar gael ar Fewnrwyd a Bwrdd Bwletin y Cynulliad. Caiff canllawiau ar wahân eu paratoi ar agweddau penodol ar y cynllun. Er enghraifft, bydd canllawiau ar wahân ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn cytundebau â thrydydd partïon yn Llawlyfr Caffael y Staff. Bydd Gweithgor y Cynllun Iaith Gymraeg yn penderfynu pa fesurau neu sefyllfaoedd ar hyn o bryd sy'n galw am ganllawiau newydd i gynorthwyo'r staff i'w gweithredu. Bydd Swyddogion Iaith y Grwpiau yn sicrhau fod y canllawiau newydd yn cael eu

dosbarthu i'r swyddogion priodol o fewn yr is-adrannau. Bydd y canllawiau newydd hyn ar gael ar y Fewnwyd a'r Bwrdd Bwletin hefyd. Caiff y staff eu hysbysu o'r canllawiau hyn ym mwletin wythnosol y Staff. Bydd ein Swyddog Iaith Canolog yn casglu fersiynau dwyieithog o rai llythyrau safonol, megis atebion dros dro a llythyrau esboniadol a gaiff eu gosod ar y Rhyngwyd a'r Bwrdd Bwletin i'w defnyddio gan yr is-adrannau.

Crynodebau a Hyfforddiant

Bydd yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg yn trefnu sesiynau briffio ar gyfer holl aelodau'r staff ar ofynion y cynllun newydd.

Cyflwynir newydd-ddyfodiaid i ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd fel rhan o'r cyrsiau cynefino, a byddwn yn sicrhau bod cyrsiau ar ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd ar gael yn fwy cyffredinol.

Bydd Swyddogion Dwyieithrwydd yn helpu i friffio eu cyd-weithwyr yn eu hadrannau ar ofynion y cynllun.

Y Gwasanaeth Cyfieithu

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol Gytundeb Lefel Gwasanaeth â'r Gwasanaeth Cyfieithu a leolir yn Swyddfa'r Llywydd. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn ein helpu ni i gydymffurfio â gofynion y cynllun hwn drwy ddarparu cyfieithiad ysgrifenedig o ddogfennau. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd neu gyfweiliadau a gynhelir gan Weinidogion y Cynulliad yn ôl y gofyn.

10. Monitro'r cynllun ac adrodd ar berfformiad

Byddwn yn monitro ein perfformiad o ran bodloni'r ymrwymadau a wnaethpwyd yn y cynllun hwn ac wrth gyflawni'r amserlen ar gyfer y newidiadau. Bydd Swyddogion Dwyieithrwydd Grp yn gyfrifol am fonitro sut y mae'r cynllun yn cael ei roi ar waith o ddydd i ddydd. Lluniwyd cyfres o fesurau'n cwmpasu holl agweddau pwysicaf y cynllun a bydd yr holl is-adrannau'n adrodd i'w swyddog iaith grp ar sut y maent yn cydymffurfio â'r cynllun. Bydd yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth ar gwynion yn erbyn y Cynulliad Cenedlaethol a gwybodaeth gan sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan a chânt eu bwydo i mewn i un adroddiad ar ein perfformiad.

Bydd Swyddogion Dwyieithrwydd Grp yn cwrdd yn rheolaidd i sicrhau cysondeb o fewn y Cynulliad ac i adolygu'r blaenoriaethau ar draws y sefydliad ac ar lefel Is-adrannol.

Bydd yr adroddiad monitro cyffredinol yn cael ei gydlynu gan yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg. Bob blwyddyn bydd Pennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn paratoi adroddiad i'w gyflwyno i Weinidog y Cynulliad sy'n gyfrifol am y Gymraeg. Bydd y Pwyllgor Pwnc sy'n gyfrifol am faterion ieithyddol hefyd yn cael cyfle i archwilio'r Adroddiad yn fanwl. Anfonir copi o'r adroddiad at Fwrdd yr Iaith. Os na chyflawnir unrhyw un o ymrwymadau'r cynllun, bydd y Gweinidog Cynulliad yn egluro pam a bydd yn amlinellu unrhyw gamau arfaethedig i ddatrys y diffygion.

Bydd yr adroddiad yn monitro ac yn disgrifio:

- y modd y caiff polisiau neu weithdrefnau newydd eu cyflwyno i wneud yn siwr eu bod yn bodloni gofynion y cynllun hwn.
- ein trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau yn y Gymraeg a'u heffeithiolrwydd a sut y caiff perfformiad ei fonitro.
- y modd yr ydym wedi annog neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg gan garfanau eraill, yn enwedig trydydd partïon sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru ar ein rhan a sut y cafodd perfformiad ei fonitro.
- bydd ein trefniadau ar gyfer delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg hefyd yn mesur y canlynol – canran y llythyrau a atebwyd o fewn y terfyn amser, canran y cylchlythyrau a'r llythyrau safonol a ryddheir yn ddwyieithog, canran y ceisiadau Cymraeg a brosesir o fewn yr amserlenni a bennwyd, canran y galwadau ffôn [switsfwrdd] a atebwyd yn ddwyieithog, nifer y cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd wyneb yn wyneb eraill a gynhelir yn ddwyieithog a sut y cynigwyd y dewis o ieithoedd.
- delwedd gyhoeddus y Cynulliad gan gynnwys y defnydd o arwyddion dwyieithog, arddangosfeydd (mewn swyddfeydd rhanbarthol yn ogystal â phrif adeiladau'r Cynulliad), gwybodaeth a argraffwyd, cyhoeddiadau, ffurflenni, pamffledi, taflenni etc, gwefannau, ymgyrchoedd yn y wasg ac ymgyrchoedd hysbysebu, holiaduron cyhoeddus, arddangosfeydd eraill, hysbysiadau cyhoeddus/swyddogol a hysbysebion recriwtio.
- staffio a hyfforddiant staff gan gynnwys y camau a gymerwyd i sefydlu ac adolygu nifer a lleoliad y staff sy'n ddwyieithog, canran y staff sy'n ddwyieithog fesul swyddfa neu is-adran, nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn sy'n gofyn am sgiliau iaith Gymraeg a faint o siaradwyr Cymraeg a benodwyd ym mhob categori, manylion y staff sy'n dilyn cyrsiau iaith Gymraeg.
- p'un a yw'r gwasanaethau a ddarperir ac a weinyddir gan ein asiantwyr a chontractwyr

yn cydymffurfio ag amodau a thelerau'r Gymraeg a nodir yn eu cytundebau neu eu trefniadau.

- cymryd camau i sicrhau fod y staff yn ymwybodol o oblygiadau'r cynllun ynghyd â'r camau a gymerwyd o ran cyhoeddusrwydd i hysbysu'r cyhoedd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- gweithredu'r cynllun yn erbyn set o dargedau y cytunwyd arnynt, gan gynnwys achosion lle na chadwyd o fewn yr amserlen, ac eglurhad dros hyn.
- nifer yr achlysuron a gofnodir gan bob is-adran lle na chyflawnwyd un o ymrwymadau'r cynllun.
- cwynion, ysgrifenedig a llafar, gan aelodau o'r cyhoedd, yn deillio o fethiant i gydymffurfio â'r cynllun ynghyd ag ymatebion swyddogion iaith/penaethiaid is-adrannau i'r cwynion.
- ymwybyddiaeth y staff o ofynion y cynllun a sut ddylid ei weithredu.

Defnyddir yr adroddiad monitro gan yr is-adrannau mewn adolygiadau blynyddol o'u gwasanaethau a byddant yn ei ddefnyddio i wneud eu gwaith cynllunio.

Bydd yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn cynnal arolwg barn o'n Gwasanaethau Iaith Gymraeg i'r cyhoedd. Bydd hyn yn golygu cysylltu bob blwyddyn â detholiad o gyrff ac unigolion yr ydym yn gwybod eu bod yn croesawu gweithredu yn y Gymraeg, er mwyn canfod eu safbwynt hwy ar y gwasanaethau a ddarperir gennym ar eu cyfer. Cyhoeddir crynodeb o ganlyniadau'r arolwg yn yr adroddiad monitro.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Bydd y cynllun ar gael fel dogfen rad ac am ddim, ddwyieithog yn Nerbynfeydd pob un o'n prif adeiladau, neu drwy'r post drwy ysgrifennu at y Swyddog Iaith Canolog yn y cyfeiriad a nodwyd yn yr adran ganlynol. Gallwch hefyd edrych ar y ddogfen ar ein gwefan. Caiff y cynllun a gymeradwywyd ei hysbysebu hefyd gan hysbysiadau yn y wasg.

10. Delio â Chwynion

Yr ydym yn gobeithio na fyddwn yn rhoi rheswm i unrhyw un gwyno. Byddwn yn monitro'n agos pa mor dda yr ydym wedi cyflawni ymrwymadau'r cynllun hwn.

Os ydym yn methu â chyflawni'r ymrwymadau hyn, yr ydym yn gobeithio y bydd y cyhoedd yn dweud wrthym. Dylid anfon unrhyw gwyn am y gwasanaethau a ddarperir yn y Gymraeg gan y Cynulliad Cenedlaethol at Swyddog Dwyieithrwydd yr adran sy'n gyfrifol am y gwasanaeth dan sylw neu at y Swyddog Iaith Canolog yn Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg os nad yw'r cyhoedd yn siwr pwy i gysylltu â hwy.

Bydd y Swyddog Iaith Canolog wedyn yn cyfeirio'r gwyn at y Swyddog Dwyieithrwydd addas.

Penodir Swyddogion Dwyieithrwydd yn y meysydd canlynol:

NHS

Hyfforddiant, Addysg a Diwylliant

Amaethyddiaeth

Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Leol

Diogelu a Gwella Iechyd

Datblygu Economaidd

Diwydiant

Trafnidiaeth, Cynllunio a'r Amgylchedd

Cadw

Ysgrifenyddiaeth y Cabinet

Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol

Y Grp Gwasanaethau Personèl, Rheoli a Busnes

Y Grp Cyllid

Dylid cyfeirio unrhyw gwynion at y swyddog dwyieithrwydd perthnasol a'u hanfon i'r cyfeiriad canlynol:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

Ceir gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion. Ymdrinir â chwynion a wneir yn uniongyrchol i'r Cynulliad fel a ganlyn:

- Pan fo'n bosibl rhoi eglurhad/ymddiheuriad yn syth sy'n bodloni'r sawl sy'n cwyno, darperir hwn gan swyddog o fewn yr is-adran a arweiniodd at y gwyn. Caiff y gwyn ei chofnodi.
- Bydd y cwynion ysgrifenedig a llafar sy'n haeddu mwy nag eglurhad syml yn cael eu harchwilio yn gyntaf gan y swyddog sy'n eu derbyn. Caiff y gwyn ei chyfeirio wedyn at Bennaeth y Gangen i gael ei harchwilio'n llawn, a fydd yn ymateb i'r gwyn, fel arfer o fewn 15 diwrnod gwaith. Lle na ellir darparu ymateb o fewn 15 diwrnod, anfonir ateb dros dro gydag addewid o ateb llawn erbyn dyddiad a nodir yn y llythyr. Anfonir copi o'r ymateb at Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg 3 (ein Huned Polisi Iaith Gymraeg). Bydd yr ymateb yn hysbysu'r rhai a gwynodd o weithdrefn gwyno'r Cynulliad a'u hawl i fynd â'r mater gerbron Bwrdd yr Iaith Gymraeg os nad ydynt yn fodlon.

Ymdrinir â chwynion a anfonir yn uniongyrchol at Fwrdd yr Iaith Gymraeg fel a ganlyn:

- Pan fydd y Bwrdd yn ein cyfeirio ni at gwyn y mae wedi'i dderbyn yn uniongyrchol am ein cynllun, bydd Pennaeth y Gangen yn y maes dan sylw yn dilyn y drefn a nodir uchod, a bydd yn rhoi copi o'r ymateb i'r Bwrdd. Wrth baratoi ymateb i'r gwyn, bydd Pennaeth y Gangen yn rhoi enw ei is-adran i'r sawl sy'n cwyno gyfeirio unrhyw sylwadau eraill at yr is-adran honno.

Adolygu Pellach o fewn ein gweithdrefnau

Pan fo'r rhai sy'n cwyno yn anfodlon â'r ymateb a roddwyd i'w cwyn, gallant fynd at gam nesaf y weithdrefn gwyno fel a ganlyn:

- Yn y lle cyntaf caiff y gwyn ei harchwilio gan uwch reolwr llinell (Pennaeth yr Is-adran fel arfer) a fydd yn adolygu'r ymchwiliad cyntaf ac yn ymateb yn unol â'r amserlen a nodir uchod. Bydd yr ymateb yn hysbysu'r rhai sy'n cwyno o'u hawl i fynd â'r mater gerbron y Bwrdd os ydynt yn anfodlon.
- Yna gellir dwyn y gwyn at ein panel cwynion a fydd yn cynnwys cadeirydd annibynnol a dau uwch swyddog. Gall hyn godi naill ai oherwydd fod Pennaeth yr Is-adran yn credu fod hynny'n angenrheidiol yn hytrach nag ateb ei hun neu am fod y sawl sy'n cwyno'n parhau yn anfodlon na chafodd y gwyn ei hymchwilio'n llawn; nad yw'n teimlo ein bod wedi gwneud popeth i gywiro'r sefyllfa; ac yn gofyn i'r gwyn fynd gerbron y panel.
- Os yw'r panel cwynion yn ystyried mater yn ymwneud â chynllun iaith Gymraeg, bydd yr ymateb gan y panel i'r sawl sy'n cwyno hefyd yn hysbysu'r sawl sy'n cwyno o'u hawl i fynd â'r mater gerbron y Bwrdd os nad ydynt yn fodlon.

Ymchwiliadau gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg

- Ar unrhyw amser, pan fydd o'r farn ein bod wedi cael cyfle rhesymol i ymateb i gwyn, gall y Bwrdd gychwyn ar ei ymchwiliadau ei hun. Y Bwrdd fydd yn penderfynu pa weithdrefn sy'n addas i amgylchiadau'r achos. Gall hyn arwain naill ai at gael caniatâd y Bwrdd i barhau â'r ymchwiliad yn ôl ein Cod ein hunain, ac i adrodd ar ein canfyddiadau, neu at y Bwrdd yn cynnal yr ymchwiliad ei hun gyda'n cydweithrediad ni.
- Unwaith y caiff yr ymchwiliad ei gwblhau, yn unol ag adran 19(1) o Ddeddf Iaith Gymraeg 1993, bydd y Bwrdd yn anfon copi o ganlyniadau ei ganfyddiadau at Brif Weinidog Cymru a'r sawl sy'n cwyno, ynghyd â chopi at Bennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg, Pennaeth yr Is-adran dan sylw a'r Ysgrifennydd Parhaol.

Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Yr ydym hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella'r gwasanaethau a ddarperir gennym drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylid gwneud unrhyw awgrymiadau i'r Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg lle cânt eu hystyried fel rhan o'n harolwg parhaus o'r modd yr ydym yn cyflwyno ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

YMRWYMIAD

DYDDIAD TARGED

CYFRIFOLDEB

DATGANIAD POLISI CYFFREDINOL

Polisiâu a Mentrau Newydd

Polisiâu a mentrau newydd yr Adran i gydymffurfio â'r Cynllun

O fewn 3 mis i gymeradwyo'r cynllun

Pob swyddog adrannol

Brandio dwyieithog i'w ddefnyddio ym mhob menter bolisi newydd

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun

Penaethiaid yr Is-adrannau

Annog a Hwyluso Dwyieithrwydd

Pob is-adran i annog sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i weithredu'n ddwyieithog drwy roi arweiniad, ymchwilio, ariannu, arolygu ac adolygu.

Bydd Cynlluniau Gweithredu y Grwpiau yn dangos sut y mae'r grwpiau'n bwriadu gweithredu'r rhan hon o'r Cynllun

Ar ôl cymeradwyo'r cynllun

O fewn chwe mis i gymeradwyo'r cynllun

Penaethiaid yr Is-adrannau

Y Penaethiaid Grwp

Swyddogion Iaith y Grwpiau

YMRWYMIAD

DYDDIAD TARGED

CYFRIFOLDEB

Cyflwyno Gwasanaethau

Pob Grwp i nodi sut y mae'n bwriadu darparu'r gwasanaethau penodol y mae'n gyfrifol amdanynt drwy gyfrwng y Gymraeg

O fewn chwe mis i gymeradwyo'r cynllun

CYFRIFOLDEB DROS Y CYNLLUN

Bydd y Penaethiaid Grwp yn pennu swyddogion iaith o fewn bob grwp i oruchwylio a hwyluso'r broses ddyddiol o roi'r cynllun ar waith.	Ar ôl cymeradwyo'r cynllun	
Yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg i benodi swyddog iaith canolog	Ar ôl cymeradwyo'r cynllun	Pennaeth Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Y FFRAMWAITH AR GYFER RHOI'R CYNLLUN AR WAITH

Pob grwp i lunio cynllun gweithredu yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer darparu ei wasanaethau yn Gymraeg	O fewn chwe mis i gymeradwyo'r cynllun	Penaethiaid Grwp/ Swyddogion iaith y Grwpiau
Caiff cynlluniau gweithredu eu cyflwyno ar gyfer pob Grwp i'r pwyllgorau addas a Bwrdd yr Iaith Gymraeg o fewn 6 mis i'r cynllun hwn ddod i rym	O fewn chwe mis i fabwysiadu'r cynllun	Swyddogion iaith

DEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN GWASANAETHAU CYHOEDDUS A DDARPERIR GAN STAFF Y CYNULLIAD

<u>Gohebiaeth:</u> Atebion Cymraeg i lythyrau Cymraeg, cychwyn gohebu yn Gymraeg/llythyrau safonol dwyieithog	Ar waith	Is-adrannau
<u>Gohebiaeth:</u> cadw a diweddarau rhestrau o sefydliadau y mae'n well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn ddwyieithog	O fewn 3 mis i fabwysiadu'r cynllun	Swyddogion iaith, Cynorthwyr Gweinyddol yn yr Is-adrannau Polisi, Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth

<u>YMRWYMIAD</u>	<u>DYDDIAD TARGED</u>	<u>CYFRIFOLDEB</u>
<u>Switsfwrdd</u>	erbyn Rhag 2001	<u>Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth</u>
<p><u>Galwadau ffôn:</u></p> <p>Pob Grwp i sicrhau fod ganddo'r gallu i ddelio ag ymholiadau cyffredinol yn Gymraeg/enwir y rhain fel pwyntiau cyswllt ar gyhoeddiadau</p>	O fewn blwyddyn i gymeradwyo'r cynllun	<u>Penaethiaid yr Is-adrannau</u>
<p><u>Galwadau ffôn:</u></p> <p>Trosglwyddo galwadau i siaradwyr Cymraeg os yw rhywun yn ffonio'r is-adran yn uniongyrchol</p>	O fewn blwyddyn i gymeradwyo'r cynllun	<u>Swyddogion Iaith – Pob aelod o staff</u>
<u>Galwadau ffôn – nodi siaradwyr Cymraeg yn Rhestr Dosbarthu Busnes y Cynulliad</u>	Ar ôl cymeradwyo'r cynllun	<u>Swyddogion Iaith/Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth</u>
Cyfarfodydd Cyhoeddus – Pob is-adran i gynnal cyfarfodydd, ymchwiliadau a gwrandawiadau cyhoeddus yn unol â gofynion y cynllun	Ar waith	<u>Pob aelod o staff</u>
<p><u>Cyfarfodydd Eraill â'r Cyhoedd</u></p> <p><u>Derbynfeydd</u></p> <p>Darpariaeth ddwyieithog yn ein derbynfeydd fel yr amlinellir yn y cynllun</p>	Ar waith	<p>Penaethiaid y Swyddfeydd Rhanbarthol</p> <p>Is-adran Gwasanaethau Rheoli</p>

<p><u>Cyfarfodydd Wyneb yn Wyneb</u></p> <p><u>Yr Is-adran i nodi'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bo hynny'n berthnasol</u></p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	
<p><u>Cyfarfodydd Grwp</u></p> <p>Yr Is-adrannau i gynnig darparu cyfieithu ar y pryd neu gynnal y cyfarfod yn Gymraeg lle bo hynny'n bosibl wrth drefnu cyfarfodydd ag unigolion a sefydliadau</p>	<p><u>Ar waith</u></p>	<p>Yr holl staff perthnasol</p>
<p><u>Seminarau a Chyrsiau Hyfforddi ar gyfer cyrff allanol</u></p>	<p>Ar waith</p>	<p>Pob aelod o staff</p>
<p><u>YMRWYMIAD</u></p>	<p><u>DYDDIAD TARGED</u></p>	<p><u>CYFRIFOLDEB</u></p>
<p>Yr is-adrannau i gadw cofnod o'r sefydliadau y mae'n well ganddynt gynnal eu cyfarfodydd yn Gymraeg</p>	<p>O fewn tri mis i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Cynorthwywyr Gweinyddol mewn Is-adrannau Polisi, Swyddogion Iaith Grwp, Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth</p>
<p>Staff i fod yn ymwybodol o sut i drefnu cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd</p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Y Swyddog Iaith Canolog</p>
<p><u>Arwyddion yn ein hadeiladau ac o'u hamgylch yn ddwyieithog pan fo hynny o dan ein rheolaeth ni</u></p>	<p>Ar waith</p>	<p>Is-adran Gwasanaethau Rheoli</p>

<p><u>Cyflwyno'r Ddelwedd Gyhoeddus</u></p> <p>Y Ddelwedd Gorfforaethol i fod yn ddwyieithog e.e. arwyddion, logo, llofnod awtomatig e-bost, penawdau llythyrau, slipiau cyfarch, taflenni blaen ffacsys, cardiau busnes y staff</p>	<p>Ar waith</p>	
<p>Delwedd gyhoeddus – Llofnod awtomatig e-bost</p>	<p>O fewn dau fis i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Yr holl staff</p>

YMRWYMIAD	<u>TARGED</u>	<u>CYFRIFOLDEB</u>
<p><u>Arwyddion traffig yr ydym yn gyfrifol amdanynt i fod yn ddwyieithog</u></p>	<p>Pan gaiff yr hen arwyddion eu hadnewyddu</p>	<p>Is-adran Reoli Rhwydwaith</p>
<p><u>Cyhoeddiadau'r Cynulliad</u></p> <p>Pob cyhoeddiad i fod yn ddwyieithog oni bai am yr eithriadau a restrir yn y cynllun</p>	<p>O fewn blwyddyn i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Penaethiaid yr Is-adrannau</p>
<p><u>Cylchlythyrau a Chanllawiau</u></p> <p>Cylchlythyrau a Chanllawiau i gael eu cyhoeddi yn unol â'r cynllun</p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Penaethiaid yr Is-adrannau</p>
<p><u>Cyhoeddiadau ar y Cyd</u></p> <p>Cyhoeddiadau ar y Cyd i'w cyhoeddi yn unol â'r cynllun</p>	<p>O fewn blwyddyn i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Penaethiaid yr Is-adrannau</p>
<p>Cyhoeddiadau Ystadegol</p>	<p>Ar waith</p>	<p>Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol</p>

<u>Briffiau a Datganiadau Ystadegol i gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog yn unol â'r cynllun</u>	Ar waith	Y Gyfarwyddiaeth Ystadegol
YMRWYMIAD	TARGED	CYFRIFOLDEB
<u>Ffurflenni</u> Yr holl ffurflenni a anelir at y cyhoedd i fod yn ddwyieithog	Erbyn diwedd 2002	Penaethiaid yr Is-adrannau
<u>Y Rhyngrwyd</u> Deunyddiau i'w cyhoeddi ar y rhyngrwyd i fod yn ddwyieithog yn unol â'r cynllun	Ar waith	Rheolwyr Cynnwys y Rhyngrwyd/Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth
<u>Hysbysiadau i'r Wasg</u> Hysbysiadau i'r wasg i'w cynhyrchu yn unol â'r cynllun	Ar waith	Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu
<u>Cyhoeddusrwydd</u> Deunyddiau cyhoeddusrwydd, hysbysebu yn y wasg ac arddangosfeydd i fod yn ddwyieithog	Ar waith	Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu
<u>Cyhoeddusrwydd</u> Ymgyrchoedd teledu a radio i gael eu cynhyrchu yn unol â'r cynllun	Ar waith	Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu
<u>Cyhoeddusrwydd</u> Llinellau ymateb i ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i fod yn ddwyieithog	Ar waith	Y Gyfarwyddiaeth Gyfathrebu

<u>Arolygon Cyhoeddus</u>	Ar waith	Penaethiaid yr Is-adrannau
Arolygon Cyhoeddus i gael eu cynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg		
YMRWYMIAD	DYDDIAD TARGED	CYFRIFOLDEB
Hysbysiadau Cyhoeddus a Hysbysebion Recriwtio a hysbysebu o'r modd hwn i gael eu cynhyrchu yn unol â'r cynllun	Ar waith	Is-adrannau Perthnasol Yr Is-adran Bersonnel
Is-adrannau i sicrhau fod asiantaethau allanol yn cydymffurfio â'r cynllun pan fo hynny'n briodol	Ar waith	Penaethiaid yr Is-adrannau
Rheolwyr cytundebau i fonitro ac adrodd ar y modd y mae contractwyr yn cydymffurfio â'r cynllun	Ar ôl cymeradwyo'r cynllun	Rheolwyr Cytundebau
Canllawiau i gael eu rhoi i staff a chyflenwyr ar gaffael gwasanaethau iaith Gymraeg	O fewn 6 mis i gymeradwyo'r cynllun	Yr Uned Gaffael
YMRWYMIAD	TARGED	CYFRIFOLDEB
<u>Staffio</u>	Ar waith	Yr Is-adran Bersonel
Archwiliad i gael ei gynnal ar nifer y siaradwyr Cymraeg neu'r bobl sy'n dysgu Cymraeg ymhlith staff presennol a dadansoddiad o leoliad siaradwyr a dysgwyr Cymraeg		Yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

<p><u>Staffio</u></p> <p>Pob is-adran i lunio strategaeth sgiliau ieithyddol ac amserlen weithredu er mwyn cyflwyno ei wasanaethau dwyieithog fel rhan o'r cynllun is-adrannol. Bydd y strategaeth yn nodi'r targedau a restrir yn y cynllun.</p>	<p>Y cynllun is-adrannol cyntaf yn dilyn cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Penaethiaid yr Is-adrannau</p>
<p><u>Hysbysebion recriwtio, recriwtio i nodi anghenion ieithyddol swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.</u></p>	<p><u>Ar waith</u></p>	<p><u>Yr Is-adran Bersonèl</u></p>
<p><u>Recriwtio</u></p> <p><u>Pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais i gael eu darparu'n ddwyieithog</u></p>	<p><u>Ar waith</u></p>	<p><u>Yr Is-adran Bersonèl</u></p>
<p><u>Hyfforddiant leithyddol</u></p> <p>Yr holl staff i gael eu hannog i fynd ar gyrsiau iaith</p>	<p><u>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</u></p>	<p><u>Yr holl Reolwyr Llinell</u></p>

<u>YMRWYMIAD</u>	<u>TARGED</u>	<u>CYFRIFOLDEB</u>
<p><u>Hyfforddiant leithyddol</u></p> <p>Pob aelod o staff i gael eu hannog i nodi ym mha rannau o'u gwaith y mae modd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg</p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Pob Rheolwr Llinell</p>

<p><u>Cyfarwyddiadau a Chanllawiau</u></p> <p><u>Canllawiau i gael eu cyhoeddi ar fesurau cyfredol neu newydd yn y cynllun i gynorthwyo'r staff i'w rhoi ar waith</u></p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun ac yn ôl y gofyn ar ôl hynny</p>	<p>Y Swyddog Iaith Canolog a'r Swyddogion Iaith Grwp</p>
<p><u>Briffio</u></p> <p>Caiff newydd-ddyfodiaid i'r Cynulliad eu cyflwyno i ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd fel rhan o gyrsiau cynefino y Cynulliad</p>	<p>O fewn 6 mis i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Training Services Wales Ltd</p>
<p><u>Fersiynau dwyieithog o lythyrau safonol, ymatebion dros dro a llythyrau esboniadol i gael eu rhoi ar y fewnrwyd</u></p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Y Swyddog Iaith Canolog</p>
<p><u>Briffio</u></p> <p><u>Sesiynau briffio i bob aelod o staff ar ofynion y cynllun newydd</u></p>	<p>O bryd i'w gilydd ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Y Swyddog Iaith Canolog</p>
<p><u>Caiff newydd-ddyfodiaid i'r Cynulliad eu cyflwyno i ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg yn ystod cysriau cynefino y Cynulliad</u></p>	<p>O fewn 6 mis i gymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Training Services Wales Ltd</p>
<p><u>Technoleg</u></p> <p>Bydd systemau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a brynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn gyson â'r broses o gyflwyno ymrwymadau'r cynllun hwn .</p>	<p>Ar ôl cymeradwyo'r cynllun</p>	<p>Penaethiaid yr Is-adrannau</p>

Monitro

Monitro safonau'r gwasanaethau yn y Gymraeg. Cyhoeddi'r canlyniadau.

Adrodd yn flynyddol

Y Swyddog Iaith Canolog a Phennaeth yr Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg